ECO'R WYDDFA

RHIF 373 NADOLIG 2009 - IONAWR 2010 PRIS 50c

Yn y rhifyn hwn:

- Buddugwyr yr eisteddfodau lleol
- Pwy yw Jacs y Gogledd?
- Cystadleuaeth Croesair

GWOBRYWO GWEINIDOG AM EI GWAITH GYDA THROSWEDDWYR

Mae gweinidog o'r Wyddgrug wedi derbyn gwobr arbennig am helpu troseddwyr Cymraeg eu hiaith i ail-ymgartrefu yn eu cymunedau.

Cafodd y Barch Nan Powell-Davies (Tan-y-Fron, Y Waunfawr gynt) Wobr Cymeradwyaeth Arbennig am fynd ymhell tu hwnt i'r gofyn wrth helpu i intigreiddio troseddwyr yn ôl i'r gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg yn noson wobrwyo Gwirfoddoli a Chyfiawnder Cymunedol 2009 yn Llandudno yn ddiweddar.

Mae'r Gwobrau, sy'n cael eu cynnal gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru, yn cydnabod gwaith ac ymroddiad eithriadol gan bobl sy'n gweithio yng ngogledd Cymru i leihau trosedd a gwella ansawdd bywyd cymunedau lleol.

Y Parchedig Powell-Davies yw cyd-gordiwr BARA, asiantaeth gefnogi ac ailsefydlu sy'n gweithio gyda throseddwyr o ogledd Cymru wedi iddynt gael eu rhyddhau o garchar. Yn weinidog gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru, mae hi hefyd yn treulio deuddydd yr wythnos yn gweithio fel caplan yng ngharchar Altcourse, Lerpwl.

Dywedodd Nan, 'Dwi'n hynod o falch 'mod i wedi cael y wobr yma achos dwin teimlo ei fod o yn anrhydedd i'r eglwys. Gwaith yr eglwys ydi hwn a dwi'n teimlo bod yr eglwys wedi cael ei gweld yn bod ar waith mewn byd sy'n brifo.

'Ond y llawenydd mwyaf i fi ar y noson oedd gweld Matthew Thomas yn ennill gwobr gwirfoddolwyr sy'n gyn-droseddwr. Fuodd o yn Altcourse ac roeddwn i'n gaplan arno fo am ddwy flynedd. Dwi'n llawen dros ben fod Matthew wedi gallu newid ei fywyd ac wedi cael y wobr am ei waith.'

Ychwanegodd Ed Beltrami, Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru, 'Fel Asiantaethau Cyfiawnder Cymdeithasol, mae'n bwysig amlygu y berthynas effeithiol sydd rhyngom yng ngogledd Cymru.

'Mae'r gwobrau yma'n pwysleisio ein bod yn cymryd camau enfawr mewn ymrwymiadau cyfiawnder troseddol i ddatblygu partneriaethau sy'n dod â'r cyhoedd, y sector breifat a'r sector wirfoddol at ei gilydd. Mae nhw'n glod gwirioneddol i bawb sy'n ymwneud â'r peth.'

Mae tua un o bob tri carcharor yng Ngharchar Altcourse, Lerpwl, yn dod yn wreiddiol o ogledd Cymru. Mae BARA yn cefnogi cyn-droseddwyr wrth iddynt geisio ail-ymgartrefu yn eu cymunedau yng ngogledd Cymru, gan gynnig cymorth gyda phroblemau fel canfod llety neu ddelio gyda chamddefnydd alcohol neu gyffuriau eraill, yn ogystal â rhoi anogaeth gyda gwaith, addysg a hamdden. Mae gwirfoddolwyr BARA hefyd yn cefnogi teuluoedd y troseddwyr wrth iddynt ddod i dermau ag absenoldeb gŵr, mab neu dad, ac yna yn eu helpu i addasu wedi iddo gael ei ryddhau. Fe'i noddir yn bennaf gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ymysg eraill.

Gwirfoddolwyr o ardal Caernarfon sy'n gweithio gyda BARA ar hyn o bryd ond bydd BARA Wrecsam hefyd yn dechrau gweithredu cyn bo hir.

CAMELOD YN NINORWIG



OND DIM SÔN AM WŶR DOETH!



ECO'R WYDDFA

RHIF 337

RHAGFYR 2009 - IONAWR 2010

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Erthyglau a newyddion at ohebwyr pentref neu i
Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA
Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
Elfion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
elfionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Elfion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Dawnydd i law'r golygyddion erbyn NOS SUL IONAWR 17
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg NOS IAU IONAWR 28
Dyddiad Gosod NOS SUL IONAWR 24
Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Gosod	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Ionawr	Sul 17 Ionawr	Sul 24 Ionawr	Iau 28 Ionawr	Waunfawr	Nan Roberts	

Llythyrau

PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Annwyl Olygydd
Hoffwn hysbysu eich darllenwyr am brosiect diweddaraf Bwrlwm Eryri, sef menter Treftadaeth Ddiwylliannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Bwrlwm Eryri yn bwriadu lansio bas-data o wybodaeth am fentrau, cymdeithasau, cyrff, busnesau preifat ac elusennau yn siroedd Gwynedd, Conwy a Môn, sydd yn gwarchod ac yn meithrin elfennau o dreftadaeth ddiwylliannol yr ardal. Bwriedir lansio'r bas-data yn 2010.

Ein gobaith yw y bydd y bas-data yn ddefnyddiol ar gyfer grwpiau sy'n gweithio ym maes treftadaeth ddiwylliannol, er mwyn rhannu gwybodaeth, syniadau, profiadau ac enghreifftiau o ymarfer da. Bydd y bas-data ar gael ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn rhad ac am ddim.

Carwn wahodd mentrau sy'n ymdrin ag elfennau o dreftadaeth ddiwylliannol i gysylltu â mi i gynnwys eu gwaith yn y bas-data.
Er mwyn cofrestru, neu i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â mi ar rif ffôn: (01766) 770 274 neu ar e-bost naomi.jones@eryri-npa.gov.uk
Yn gywir iawn
NAOMI JONES
Swyddog Bwrlwm Eryri

NOSON LAWEN

Annwyl Ddarllenwr,
Mae'r rhaglen deledu boblogaidd, *Noson Lawen*, yn chwilio am dalentau newydd i befformio ar y gyfres nesaf ar S4C. Ydach chi'n gallu canu, dawnsio neu chwarae offeryn; chwarae mewn band neu'n gallu gwneud i bobl rholio chwerthin? Os oes ganddoch chi dalent arbennig neu os ydych yn nabod rhywun y bydde chi'n hoffi eu henwebu i berfformio ar y gyfres, cysylltwch yn fuan efo tîm y Noson Lawen.

Mae sawl ffordd o gysylltu. Ffoniwch 01248 671 167 (yn ystod oriau swyddfa) neu ebostiwch nosonlawen@cwmnidaity neu cysylltwch trwy ymuno â grŵp Facebook Noson Lawen http://groups.to/nosonlawen/
Yn gywir,

JENNY MATULLA
Ymchwilydd

YSGOLORIAETH TECSTILIAU

Maes Meini
Rhyduchaf, Y Bala

Annwyl Olygydd
Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig Ysgoloriaeth hyd at £300 i fyfyriwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstiliau mewn coleg. Dyma'r pedwerydd tro i'r Gymdeithas gynnig yr ysgoloriaeth hon.

Amcanion ein Cymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir Brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno trwy edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

I wneud cais am yr ysgoloriaeth, mae angen anfon cyfeiriad a manylion y cwrs ynghyd â lluniau o enghreifftiau o'ch gwaith at:
Medwen Charles, Maes Meini, Rhyduchaf, Y Bala LL23 7SD.
maes.meini@lineone.net
Y dyddiad cau fydd 30 Ionawr 2010.

13 Maes Mawr
Penrhosgarnedd

Deuthum o hyd i'r gerdd yma gan David Ellis – ac wrth ei darllen meddyliais – oes na rywbeth wedi newid ers 1956?
Wrth fy modd gyda'r Eco
Gyda diolch
NORAH O'BRIEN

Cyngor Llyfrau Cymru
Aberystwyth

Annwyl Gyfaill
DIWRNOD Y LLYFR 2010
Fel y gwyddoch, o bosib, bydd Diwrnod y Llyfr 2010 yn cael ei gynnal ar 4 Mawrth, ac, unwaith yn rhagor, mae'r Cyngor Llyfrau yn arwain y gweithgareddau yma yng Nghymru. Rydym wedi cysylltu ag ysgolion, llyfrgelloedd, mudiadau a sefydliadau gan eu hannog i gynnal gweithgareddau ar y dydd, a hyderwn y bydd pawb yn cael cyfle i ymuno yn yr hwyl.

Rydym yn awyddus hefyd i gael cefnogaeth y papurau bro eleni eto, ac i'r perwyl hwn paratowyd croesair ar eich cyfer. Fel y gwelwch, nid yw'r dyddiad cau tan ddiwedd mis Ebrill.

Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn siec o £50 yr un. Felly, dyma gyfle i'ch darllenwyr gystadlu am wobr bersonol a chefnogi'r papur bro yr un pryd!

Bu'r ymateb yn 2009 yn arbennig o dda, gyda llawer o bapurau yn cynnwys y croesair, a nifer dda yn cystadlu.

Gan ddiolch am eich cefnogaeth,
Yn gywir
DELYTH HUMPHREYS
Cydlynydd Gweithgarwch
Diwrnod y Llyfr

Blynyddoedd o wasanaeth i'r Eco

Wedi bod wrth y gwaith ers Medi 1992 mae Mrs Mair Humphreys, Llanrug, wedi rhoi'r gorau i'w swydd o ddosbarthu'r Eco i'r siopau. Mae Mrs Humphreys yn un o'r llu o weithwyr diwyd sy'n sicrhau llwyddiant yr Eco.

Diolch o galon iddi am ei gwasanaeth a pob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

Os oes unrhyw un fyddai yn fodlon cymryd y gwaith drosodd cysylltwch ag un o'r swyddogion.

Bwrdd y Wledd

Mae bwrdd y wledd yn llawn o basgedigion
Mewn llawer bwth a thref yng Nghymru fach,
Llawenydd fydd yn llenwi llawer calon
A'r plant yn dawnsio gyda'u miri iach.
Hosanau llawnion yn eu hystafellocdd -
Eu cynnwys fore'r Wŷl fydd wrth eu traed,
Newydd deganau o bob lliw yn lluoedd
A'r plant heb ball yn gorfoleddu gaed.
Mwyafrif glwth ein cenedl wrth y byrddau
A'u llygaid pŵl heb gyffro yn eu pen,
Gweigion boteli gwirod, a barilau
Sucan-y-bendro'n creu doliau pren.
Lluoedd y Dwyrain yn newynu'n drist
A hithau'n wŷl i gofio geni Crist

UN FUNUD FACH

DYDDIAD GENI

Mae rhai'n well nag eraill am gofio dyddiadau pen-blwydd. Ar wahân i'r teulu agosaf, does gen i fawr o syniad am ddyddiad pen-blwydd neb. Yn sicr, does gen i ddim syniad pryd mae dyddiadau pen-blwydd aelodau'r eglwysi sydd dan fy ngofal. Ni fu hynny'n broblem o gwbl ar hyd y blynyddoedd. Ond yn ddiweddar, mae wedi achosi cryn drafferth. Ac mae'n bosib i chithau gael yr un drafferth â mi, os buoch yn chwilio am ffrind neu gymydog yn Ysbyty Gwynedd. Erstalwm, roedd gwybod enw a chyfeiriad y claf yn ddigon er mwyn cael gwybod ym mha ward yr oedd. Ond erbyn hyn, y cwestiwn cyntaf a ofynnir yw 'Ydych chi'n gwybod ei ddyddiad geni?'

Byddaf yn teimlo'n reit dwp wrth gydnabod nad oes gennyf y syniad lleiaf pryd y cafodd Mr Hwn a Hwn ei eni. Ond dyw'r ffaith nad wyf yn gwybod dyddiad geni Mrs Hon a Hon ddim yn golygu nad wyf yn gwybod llawer o bethau eraill amdani. Does dim rhaid gwybod pryd y ganwyd neb i'w nabod yn dda.

Does neb ohonom yn gwybod pryd y ganwyd Iesu Grist. Does neb yn honni mai'r pumed ar hugain o Ragfyr yw dydd ei ben-blwydd mewn gwirionedd. Fedrwn ni ddim hyd yn oed ddweud yn union ym mha flwyddyn y cafodd ei eni. Ond nid oes ots am hynny, gan mai'r ffaith iddo gael ei eni o gwbl sydd bwysig, yn hytrach na'r union ddyddiad y digwyddodd y peth.

Yr hyn sy'n bwysig yw iddo gael ei eni yn blentyn i Fair, y wyryf, ym Methlehem, oddeutu 2009 o flynyddoedd yn ôl. A'r rhyfeddod mawr yw bod miliynau o bobl wedi cofio am yr enedigaeth honno dros y canrifoedd, ac yn dal i'w chofio a'i dathlu heddiw. Nid y dyddiad sy'n bwysig, ond y digwyddiad ei hun. Y rhyfeddod yw bod un hogyn bach wedi ei eni, a byd cyfan yn cofio hynny. Ganwyd miloedd o blant bach y flwyddyn honno, a ganwyd miloedd lawer bob dydd ers hynny. Ond mae'r un enedigaeth hon wedi bod yn destun cân holl oesoedd y byd ers hynny.

Nid yw hynny'n gwneud synnwyr i lawer. Sut fedrwch chi honni, meddant, fod geni un plentyn bach mor bwysig? Dyma, wrth reswm, ran o dramgwydd mawr y Crist i anghredinwyr, sy'n methu'n glir â derbyn fod un person mor wahanol i bawb ohonom ni ac i bob arweinydd ac athro crefyddol a chymdeithasol. Dathlu'r enedigaeth hon y mae'r Eglwys Gristnogol am ei bod yn credu bod y baban bach hwnnw yn unigryw. A'r hyn sy'n ei wneud felly yw'r ffaith mai Mab y Duw byw ydyw. Fe ddaeth yn un ohonom ni ym Methlehem. A dyna'r peth pwysig. Wrth ddweud iddo ddod yn un ohonom, cydnabod ydym nad un ohonom ni oedd o i ddechrau. Mab Duw ydoedd, ond fe ddewisodd ddod yn un ohonom er mwyn bod yn Waredwr i ni. Nid gwybod pryd y daeth sydd ei angen, ond credu iddo ddod. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi.

JOHN PRITCHARD

1885 – 2010

Y flwyddyn nesaf bydd Eglwys Sant Padarn, Llanberis, yn dathlu 125 mlynedd. Mae cynlluniau mawr ar y gweill i ddathlu'r achlysur hwn a bydd mwy o fanylion yn y dyfodol agos. Yn y cyfamser, tybed a oes gan ddarllenwyr yr Eco unrhyw hen luniau neu greiriau sy'n ymwneud â'r Eglwys a fyddai'n addas ar gyfer arddangosfa? Os oes gennych gyfraniad i'w gynnig, cysylltwch â'r rheithor, Mr Robert Townsend ar (01286) 873678. Edrychwn ymlaen at y dathlu!

DIFFYG PARCH!!

Ond chwarae teg iddyn nhw am beidio cyfieithu Llanberis i'r Saesneg hefyd!

RHODDION

£20: T R Parry, Hagley; Bob ac Eileen Roberts, Northampton; Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, Llanrug, Gertie ac Ellen, 4 Hafan Elan, Llanrug; Er cof am Gordon Branagan, 17 Maes Padarn, Llanberis; Olive Allen, Rhes Caradog, Deiniolen.

£10: Mair Jones Cilan,Bethel; Iorwerth a Peri Evans, Hafod Oleu, Deiniolen.

£5: Elizabeth Evans Pen Parc, Bethel; Teulu'r ddiweddar Mrs Elizabeth Jones, Bryn Heli, Llanrug; Helen a Dafydd Owen, Brynhyfryd, Penisarwaun; Mrs Enid Williams, 15 Rhos Rug, Llanrug; Mrs Jean Davies, Rhyd y Delyn, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug; Arwel ac Emma, Stryd Caradog, Deiniolen.

Ceiliogod

Mae amrywiaeth mawr mewn ceiliogod gwynt...
ceir sianticlîr traddodiadol y dref
yn aur i gyd wrth eglwys y plwy, - hynt
tywydd o'i gynffon, i'w big tua'r nef!
Acw – llwynog ar duth o'r storm yn ffoi, -
ar y cwt cwch, bwa brithyll mewn naid;
mae gwrach ar ysgub mewn ambell do'n troi,
neu sgwner a'i hwyliau llawn ar y teid ...

Mae un ar ôl – wna i'm sefyll yn stond
pan ei gwelaf! Beth bynnag fyddo'r hin
gwna i'm fyfyrio'n ddwys, - er nad yw, ond
rhyw bladurwr cefngrwm ddynoda'r drin ...

'Rhen Dad Amser yw hwn, - a'i g'neua brwnt -
Nos Calan dyfalwn gnwd ei du hwnt!?

NORMAN CLOSS, FACHWEN

Gwasanaethau Garddio Gorwel
01286 650761
07773 020424
Plannu Llwyni
Planiixion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Cofal Tymhorol
Cwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CYBDL YSWIRIEDIG

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN
DIESEL PETROL CHWISTRELLIAD ARBENIGWYR
SKODA TYRBO CLUTCHES BMW PEUGEOT BRÊCS ABS FIAT
NEWYDD YR ALMAEN SWEDEN
UNIONI OLWYNION CAM BELTS TRYDANOL
-Cymhwyster- BOSCH
i roi gwasanaeth i'ch car heb effeithio ar y warant*
Dewis arall dibynadwy yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gyda rhai amodau
MOT
Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr Lle da y gellwch ei ffordio
Shell HELIX
Stad Glbyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk
AVW Gwasanaeth i'r Car
AIR CON GWASANAETH BATRIS
VOLVO MERCEDES SAAB

CDH
Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol
27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor
(01248) 674460
Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol
Awdurdodir a rheolir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Ymddiheurwn am roi'r enwau dan y llun anghywir o blant ysgol Cwm yn rhifyn Rhagfyr yr Eco. (Gol.)

YR YSGOL GYMUNED

CROESO. Braf o beth ydy cael croesawu Miss Heather Johnston i'r ysgol; mae hi'n gweithio bob prynhawn yn nosbarth Peris.

DIOLCH. Diolch o galon i 'Gyfeillion a Rhieni Ysgol Cwm y Glo' am eu haelioni arferol; mae'r gymdeithas wedi prynu cyfrifiaduron, offer addysgol ac offerynnau cerddorol i'r ysgol, ac mae'r rhain ar ddefnydd ar draws yr ysgol.

Yn ogystal â hyn, trefnodd y gymdeithas ddiwrnod o bacio bagiau yn archfarchnad Morrisons ar ddydd Sadwrn, Hydref 31ain – casglwyd dros £450! Diolch yn fawr i bawb a fu mor brysur.

Mae ein diolch yn fawr i flaenoriaid a swyddogion Capel Tabernacl, Cwm y Glo am ganiatáu i ni ddefnyddio'r adeilad ysblennydd hwn i ymarfer ar gyfer, a chynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch ar brynhawn Iau, Hydref 22ain. Bydd ein sioe Nadolig yn digwydd yno hefyd ar brynhawn a nos Iau, Rhagfyr 10fed; mae pawb yn edrych ymlaen!

Diolch i Elin, Megan, Rebecca a Wena, myfyrwyr yn Ysgol Brynrefail, am eu gwaith yn nosbarth Peris yn ystod eu cyfnod Profiad Gwaith. Mae'r ysgol yn falch o'i chysylltiad â'r ysgol uwchradd, ac yn barod i groesawu myfyrwyr yn y dyfodol.

DIGWYDDIADAU DIDDOROL. Ar brynhawn Mawrth, Hydref 6ed daeth dau ymwelydd arbennig iawn i'r ysgol yng nghmwni Kate Tomms, Prifweithredwraig Menter Fachwen. Matthew a Linta, sydd yn gweithio â phobl ag anawsterau dysgu yn ardal Kerala yn India, oedd y ddau a bu cyfle i'r plant eu holi'n dwll am eu bywydau a'u gwaith. Roedd y ddau wedi gwirioni'n lân gydag ansawdd cwestiynau'r plant, gyda'r ysgol a'r gymuned wedi creu argraff ffafriol iawn ar y ddau. Diolch i Kate a'n cyfeillion agos ym Menter Fachwen am drefnu'r digwyddiad arbennig hwn.

Diolch i Louise Fraser am dreulio bore Mawrth, Hydref 13eg yn yr ysgol yn cynnig gweithdai gwyddoniaeth hynod ddiddorol i'r plant.

Daeth Andrew Settatree i'r ysgol ar fore Llun, Tachwedd 2il i gynnig gwasanaeth arbennig i'r plant. Diolch iddo am roi o'i amser gwerthfawr.

Ar fore Mercher, Tachwedd 18fed, daeth Michaela McGovern â'r gweithdy Zoo Lab i'r ysgol ar gyfer y tri dosbarth. Gwnaethpwyd pob math o weithgareddau diddorol gydag amrywiaeth o anifeiliaid, gan gynnwys trychfilod a neidr (gweler y lluniau)! Diolch i Michaela am ei gwaith caled ac am ddiddori'r plant.

Cafwyd diwrnod diddorol dros ben yma yn yr ysgol ar ddydd Gwener, Tachwedd 19eg wrth i'r plant gynnal amryw weithgareddau a gwisgo mewn pyjamas neu wisg ffansi er budd apêl Plant Mewn Angen. Llwyddwyd i godi £139.70; da iawn chi i gyd, blant!

Diolch i gwmni Techniquest am eu gweithdai gwyddonol diddorol a gynhaliwyd yma ar ddydd Mawrth, Tachwedd 24ain.

Diolch hefyd i Angie Roberts a ddaeth i'r ysgol ar ddydd Gwener, Tachwedd 27ain i gynnal gweithdai ar lwyth y Masai gyda phlant dosbarth Marchlyn (bl. 5 a 6). Roedd y gwaith yn hynod ddiddorol, gyda'r plant yn gwisgo fel Masai, creu torchau a dysgu dawnsfeydd a cherddoriaeth arbennig o dda!

Bu Cwmni Da yn ffilmio plant yr ysgol yn canu'r garol 'Pen-blwydd Pwy?' ar fore Llun, Tachwedd 30ain. Bydd y recordiad i'w weld ar y sgrin fawr yng Nghaernarfon ar Ragfyr 22ain a 23ain!

Bu'r rhan fwyaf o blant yr ysgol ar daith ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 1af – dosbarth Peris (meithrin, derbyn, bl. 1 a 2) yng nghoedwig Pont-y-Pair, Betws y Coed ar daith Nadoligaidd yn y bore, a dosbarth Llydaw (bl. 3 a 4) yng Nghanolfan Awyr Agored Gwynedd, Rhyd Ddu, drwy'r dydd. Diolch i bawb am eu cymorth; cafodd y plant brofiadau gwerth chweil.

Diolch i Mr. Townsend am alw yn yr ysgol i gyflwyno gwasanaeth arbennig i'r plant ar fore Mercher, Rhagfyr 2il; mae'n bleser cael ai groesawu yma atom.

Ar noson oer iawn (nos Fercher, Rhagfyr 2il) bu criw o blant yr ysgol yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis fel rhan o gynulleidfa oedd yn recordio rhaglen Nadolig 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol'. Er ei bod yn noson hir iawn (yno tan ddeg!) roedd pawb wedi mwynhau ac wedi rhoi o'u gorau. Diolch i'r rhieni am ddod gyda'u plant yno a'u cludo adref.

Bu plant blwyddyn chwech yn Ysgol Brynrefail ar ddydd Iau, Rhagfyr 3ydd yn cael blas ar fywyd mewn ysgol uwchradd. Diolch i bawb yno am eu croeso a'r holl weithgareddau diddorol.

Erbyn y rhifyn nesaf, bydd nifer o weithgareddau Nadolig wedi digwydd, gan gynnwys ein sioe Nadolig, Tyfu i Fyny. Cewch ddarllen hanes y llu o

Michaela yn dangos pryf copyn (MAWR!) i Jonathan.

Cara yn dangos i blant Peris sut i afael mewn neidr!

Nadolig Llawen
A Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr yr Eco

Hoffwn ddiolch i'n cwsmeriaid lleol am eu cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn!

Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

caban cyf

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro
Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym
musnes llefrith

EIRWYN
WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO

Ffôn: (01286) 870563
Diolch am eich cefnogaeth
trwy'r flwyddyn

ddigwyddiadau yn rhifyn Chwefror! Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco oddi wrth plant a staff Ysgol Gymuned Cwm y Glo.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Tom Jones, 2 Rhes Bryn, a ddaeth yn bumed am redeg yn y categori Bechgyn dan 11 oed yn y 'North Wales Cross Country League'. Rhedodd Tom bedair ras i gyd i gyrraedd y safle terfynol yma. Mae'n aelod o glwb rhedeg Menai Track and Field ers mis Medi a daeth yn ail yn nhîm y Bechgyn dan 11 oed oedd yn cynrychioli'r Clwb. Dalier ati, Tom!

MARWOLAETH. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd fore Mercher, 18 Tachwedd, bu farw Mrs Margaret Mary Rowlands (Peggy) yn 88 mlwydd oed. Yn enedigol o Henllan, Dinbych, wedi cyfarfod â'i phriod, Russell Rowlands yng Ngwersyll Milwrol Prestatyn ymgartrefodd y ddau yn Nhalafon, Allt Goch. Wedi colli ei phriod daeth Mrs Rowlands i fyw i 3 Maes Gerddi a thrigodd y deng mis diwethaf yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Iau, 26 Tachwedd yn Eglwys Sant Gabriel a rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent Llanrug. Gwasanaethwyd gan y Rheithor, y Parch Robert Townsend, gyda Dr William Munro wrth yr organ. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i dau fab, David a John, a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli mam a nain mor addfwyn ac annwyl iawn.

CYDYMDEIMLAD.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Clifford Williams a'r teulu, mab Marian ac Albert Williams (Seiont House gynt) yn eu profedigaeth frawychus o sydyn o golli priod, mam a merch yng nghyfraith yn Y Felinheli.

DIOLCH i bawb sydd wedi gofalu am newyddion i' r Eco drwy'r flwyddyn.

CYFARCHION Y TYMOR. Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref.

Anturwyr Llydaw o flaen Llyn y Dywarchen, Rhyd Ddu.

Angie Roberts a chriw dosbarth Marchlyn yn ymarfer un o ddawnsfeydd llwyth y Masai.

TELYNOR LLWYDDIANNUS

LLONGYFARCHIADAU i Math Roberts, Lôn Bwlch, ar ddod yn fuddugol yn Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm y Glo eleni ar yr Unawd Offerynnol Cynradd. Enillodd Math 'Gwpan Bwlchgrwnog' am y perfformiad cynradd gorau a dywedodd y beirniad, Nia Evans, ei bod wedi cael pleser anghyffredin yn gwrando ar Math yn canu'r delyn. Dywedodd hefyd ei bod yn fraint cael clywed telynor ifanc mor ddawnus.

Daeth Math yn fuddugol hefyd wrth ganu'r delyn deires yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala eleni yng nghystadleuaeth John Weston Thomas ar gyfer y delyn draddodiadol. Go dda ti!

DATHLU

Mae bywyd yn ddathliad parhaol! Pen-blwyddi o bob math, priodasau, dathliadau teuluol, llwyddiannau, ac mae pob dathliad yn arwyddocaol yn ei ffordd ei hun.

Mae cwmni teledu Fflic yn cynhyrchu cyfres deledu gynhyrfus newydd sy'n estyn gwahoddiad i bobl drefnu dathliad neu barti ar gyfer person haeddiannol yn eu bywydau neu yn eu cymuned.

Ydych chi'n adnabod rhywun sy'n haeddu syrpreis?

Rydym yn edrych am ddathliadau rhwng Rhagfyr a Mawrth 2010:

- rhywun sy'n dathlu pen-blwydd arbennig efallai neu yn ymddeol
- rhywun sy'n ymfudo neu adael y gymuned, y wlad, eu swydd
- rhywun sydd wedi ymdopi gyda salwch
- neu rywun sydd wedi helpu pobol ar hyd eu hoes

Byddwn yn gofyn am gymorth gan y gymuned wrth drefnu'r digwyddiad ond Nia Parry fydd wrth y llyw gyda chefnogaeth Leah Hughes (Hip neu Sgip, O4 Wal, Gwestai'r Byd) a'i thîm o ddynion cryf.

CWMNI TELEDU FFLIC

ATEBION CWIS CHWARAEON NADOLIG

1) Cape Town; 2) Caerdydd; 3) Becky Brewerton; 4) Hwlffordd, Porth Talbot, Aberystwyth; 5) Roger Federer, Tiger Woods, Thierry Henry; 6) Parc Croke, Dulyn; 7) Flushing Meadows; 8) Yr Eidal; 9) Sri Lanka; 10) San Siro, Milan; 11) Barcelona; 12) Everton, Rangers, Olympique Marseille; 13) 7; 14) Gors Las; 15) Cardiff City; 16) William Gallas; 17) John Dawes, John Taylor, Merfyn Davies, JPR, Gerald Davies, Mike Roberts, Geoff Evans; 18) Panasar, Anderson; 19) 400 gêm gynghrair; 20)Martina Navratilova (9 gwaith)..

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Richard S. Humphreys

ORIEL CWM

Cwm-y-glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Nadolig Llawen a diolch am eich cefnogaeth oddi wrth

Alwyn a Sarah

Blodau Racca

Penisarwaun Ffôn: 870605

Rithoedd Celyn, Coed Nadolig, 'Crem Pots' a Rithoedd Drws.

Basgedi Planhigion, Trefniadau blodau Silc.

RHODD O'R GALON YW BLODAU

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

BRYSIWCH WELLA. Anfonwn ein cofion ar drothwy'r Nadolig at rai sy'n sâl yn y pentref. Rydym yn deall fod Mrs Wendy Jones, 20 Tal y Bont, wedi dod adref o'r ysbyty ar ôl treulio saith wythnos yno. Pob dymuniad da, Wendy, a brysiwch wella.

Hefyd, Mr Gwilym Williams, Bryn Eifion, yntau wedi dychwelyd gartref wedi arhosiad yn yr ysbyty. Brysiwch chithau wella hefyd.

DYMUNIADAU NADOLIG. Dymuna Mr Gwilym Williams, Bryn Eifion, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w gyfeillion gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni. Yr un pryd, dymuna ddiolch yn arw i bawb am yr ymweliadau a'r galwadau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac nawr wedi iddo ddod adref.

PROFEDIGAETH. Yn sydyn iawn bu farw Mrs Carol Ellis, 57 Bro Rhyddallt, gwraig annwyl Richard a mam garedig i Jackie a Geraint. Cydymdeimlwn yn arw â chwi fel teulu yn eich profedigaeth.

DIOLCHIADAU. Dymuna teulu'r ddiweddar Elizabeth Ellen Jones, Bryn Heli, Ffordd Glanffynnon, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu colled fawr. Diolch i Feddygon Waunfawr, i'r trefnwyr angladdau, Roberts & Owen, Penygroes, ac i'r Parchedig Brian Jones am ei wasanaeth.

Casglwyd y swm o £2,250 tuag at Ysgol Pendalar. Diolch yn fawr iawn.

DYMUNA Mrs Jean Davies, Rhyd y Delyn, Ffordd Glanmoelyn, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati yn ystod ei gwaeledd. Buont yn gymorth mawr iddi wella. Fe ddymuna Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w pherthnasau a'i ffrindiau i gyd.

AM DDIM! Organ Yamaha drydan gyda dau 'keyboard' pedalau a stops. Am ddim ond i rywun ei chasglu. Cysylltwch â Ruth ar 07787734797.

DYMUNIADAU DA. Mae Gwynfor a Linda (Wavell) wedi symud i fyw i Rhos Isaf. Dymuniadau gorau i chi yn eich cartref newydd a phob hapusrwydd – peidiwch a'n anghofio ni yn Llanrug!

CYLCH MEITHRIN. Bu Tymor yr Hydref yn gyfnod prysur i Gylch Meithrin Llanrug. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau codi arian gan gynnwys taith gerdded noddedig o Inigo Jones i'r Groeslon ac yn ôl, disgo Calan Gaeaf a noson cwis a chyri. Diolch yn fawr i Dave, Glyntwrog, am ei gefnogaeth gyda'r noson cwis ac am wneud y cyri.

Yn ogystal â hyn cynhaliwyd stondin gacennau ar y Maes yng Nghaernarfon, trefnwyd ymweliad â Siôn Corn ar reilffordd Llyn Padarn a chyngerdd Nadolig. Cafwyd rhywbeth i blesio pawb o'r teulu.

Os yw eich plentyn chi yn ddwy a hanner mlwydd oed cyn diwedd Mai 2010, mae cyfle iddynt ymuno gyda'r Cylch a bod yn rhan o'r hwyl a'r sbri. Am ragor o fanylion ac i gofrestru eich plentyn ffoniwch y cylch ar (01286) 674020.

MERCHED Y WAWR. Cinio Nadolig. Aeth llond bws o aelodau i fwynhau pryd Nadolig amheuthun yn 'Y Bistro', Y Felinheli ar nos Fawrth, 8 Rhagfyr. Diolch i'r is-ysgrifennydd, Margaret Christian, am wneud y paratoadau. Dymunwyd Nadolig Llawen a Blwyddyn lewyrchus i bawb.

Cynhelir Bowlio Deg yn Glasfryn ar 15 Ionawr a bydd Cwrs Crefft y Gogledd ar 23 Ionawr.

Atgoffir pawb i ddod â'r bonion raffl yn ôl erbyn cyfarfod nesaf ar 12 Ionawr os gwelwch yn dda. Y siaradwr gwadd fydd Elfyn Thomas a bydd yn olrhain hanes y cwmni 'Seren Arian'. Felly gwelwn chi i gyd yn 2010.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb 100 mis Rhagfyr oedd £20: Doreen Fisher, 6 Hafan Elan; £7: Mrs M. Parry, Wenllys; £5 Mrs C. Griffith, Tan y Fron.

Diolch am eich cefnogaeth a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

YSGOL GYNRADD

Croeso i Hanna Gwyn merch fach i Mrs Eleri Jenkins-Edwards a Steve, a chwaer fach i Owain. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Bu tîm arolygu Estyn yn yr ysgol,a chafwyd Arolwg lwyddiannus. Diolch i aelodau'r Staff, Staff Ategol, Llywodraethwyr ac yn arbennig i'r plant am eu hymroddiad.

Bu Blwyddyn 1 a 2 yn ymweld ag Archfarchnad Tesco ym Mangor fel rhan o'u gwaith ar Fasnach Deg. Cawsant groeso mawr gan Swyddogion Addysg y siop ac roeddent wedi cael profiadau buddiol iawn. Yn dilyn yr ymweliad cynhaliwyd cystadleuaeth cynllunio het. Yr enillwyr oedd Osian Land [Blwyddyn 2] a Deian Llyfni [Blwyddyn 1]. Llongyfarchiadau i'r ddau.

Cynhaliwyd Gala Nofio'r Urdd i Flynyddoedd 3, 4, 5,a 6. Diolch i bob un o'r plant a fu'n

Disgo Calan Gaeaf Cylch Meithrin Llanrug.

cystadlu ac i'r athrawon am eu hyfforddi a'u cefnogi ar y diwrnod.

Bu Blynyddoedd 3 a 4 yn mwynhau diwrnod Nadolig Fictorianaidd yng Nghastell Penrhyn. Buont yn gwneud addurniadau Nadolig a chael blas ar fywyd y cyfnod.

Bu'r plant yn cymryd rhan yn yr ymgyrch Plant Mewn Angen a thrwy wisgo gwisg o'u dewis llwyddasant i godi £256.00.

Llongyfarchiadau i Angharad Emlyn Dobson [Blwyddyn 6] ar ennill gwobr gyda'r Gerddorfa Ieuenctid am wneud y cynnydd gorau fel offerynwraig yn ystod y flwyddyn gyda'r corned. Da iawn, Angharad!

Bu Blynyddoedd 5 a 6 yn mwynhau'r Pantomeim 'Barti Ddu' draw yn Sir Fôn. Barn y plant oedd eu bod wedi mwynhau'n arw!

Cynhaliwyd Ffair Nadolig flynyddol yn yr ysgol. Diolch i aelodau'r Pwyllgor Rhieni/Athrawon a holl Staff yr ysgol am eu cymorth i drefnu a chynnal y noson, ac i Fand Llanrug am ddod i'n diddori.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Roedd yn braf gweld cymaint wedi troi allan i weld Siôn Corn.

Nadolig Llawen iawn i blant a staff yr ysgol a mwynhewch y seibiant dros yr ŵyl.

CYLCH TI A FI LLANRUG

Plant Cylch Ti a Fi Llanrug yn dathlu Calan Gaeaf. Mae'r Cylch yn cyfarfod pob bore Gwener am 9:15 - 10:45 yng Nghapel y Rhos, Llanrug. Croeso i fabanod a phlant oed cyn ysgol ymuno yn yr hwyl.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch **â Gomer Roberts**
Ffôn : **01286 870462**
Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Am gymorth:
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

Pryd i Bawb

Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad
Bwffe blasus o safon

- Priodas •
- Cyfarfodydd busnes
- Bedydd/Parti/Te angladd
- Basged Picnic
- Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont
LLANRUG
677362
neu symudol
07979 620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

BRYSIWCH!

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid
ac i bawb ym mro
Eco'r Wyddfa

oddi wrth

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673574

PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI

Darren Jones

Contractiwr Teilsio

CEGINAU
YSTAFELLOEDD YMOLCHI
A LLORIAU

9 Rhos Rug
Llanrug Caernarfon

(01286) 669090
Mobile-07894818783

CYFARCHION NADOLIG LLANRUG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Y DYN CIG

BRYNAFON, LLANRUG
675190 • 673188
Symudol: **07798 718188**

Gwasanaeth lleol ar gyfer Partïon•Priodasau
Pen-blwydd • Bedydd • Dawns • Gwyliau
RHOSTIO MOCHYN ar gyfer pob achlysur
Cig o ffermydd lleol, Partïon rhwng 40 a 400!
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â: **John Hughes Jones** ar un o'r rhifau uchod



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed
am brisiau cystadleuol.
Coed tân ar werth

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: **(01286) 674183**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yng

NGHARTREF

Foelas

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: C'fon 674652

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

Sefydlwyd 1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

NWBC

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

J.M. JONES

a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089 - 01286 830996

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

ARVONIA

- Tocynnau Anrheg Gwyliau ar gael yma
- Gofynnwch am ein *'Brochure'* Gwyliau Newydd

Y Sgwâr, Llanrug
Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: **01286-675175** Ffacs: **01286-671126**
E-bost: info@arvonia.co.uk
Gwefan: www.arvonia.co.uk

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i ddarllenwyr Yr Eco oddi wrth Bawb
ym Mharc Cartrefi Gwyliau

HOLIDAY HOME PARK
Brynteg
LLANRUG

– lle gwireddwyd breuddwyd

Mae ein llwyddiant wedi parhau eleni eto gydag ennill
Gwobr Aur Cadwraeth David Bellamy

GRŴP
TALACRE
BEACH

Yn dilyn y datblygiadau parhaol oddi mewn i'r parc, mae'r fenter yn awr yn cyflogi 26 o bobl gydol y flwyddyn, gyda'r nifer o swyddi yn cynyddu hyd at 60 yn ystod prysurdeb tymor yr haf.

Mae'r cwmni yn dal i gefnogi a noddi nifer o achosion da yn yr ardal.

Cyfarchion Nadolig
LLANRUG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
WENDY
a
STAFF
TAFARN
PENBONT
LLANRUG
Lle braf a chwmni difyr dros wyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Dave, Bobbie a staff y
GLYNTWROG
LLANRUG
671191
Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
BRYN AFON ENGINEERING LTD
PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob math o waith metel
GWAITH BRYN AFON
LLANRUG, Ffôn: 675523

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Elaine a Staff**
SIOP DRIN GWALLT a HARDDWCH
Elaine's
LLANRUG
Ffôn: 672023

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Gwynfryn a Valerie Lloyd

4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 674781
- Defnyddir peiriant sugno i lanhau
- Simneau glân am bris rhesymol

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth
HOLL STAFF
SIOP CHIPS TEGFAN
Y Sgwâr
LLANRUG

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
DENNIS ROBERTS



(Glyn Roberts a'i Fab)
DYNION GLO LLANRUG
Ffôn: 675043
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
PAT AC EDGAR
SWYDDFA'R POST
LLANRUG
Ffôn: (01286) 672422

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED. Dydd Llun, 30 Tachwedd, treuliodd plant Blwyddyn 6 y diwrnod yn Ysgol Brynrefail.

Daeth criw ffilmio Cwmni Da draw i'r ysgol i recordio plant Blwyddyn 3, 4 a 5 yn canu carol ar gyfer cael ei dangos ar y sgrin fawr yng Nghaernarfon yn ystod wythnos y Nadolig.

Ffair Nadolig – cynhaliwyd ffair Nadolig lwyddiannus nos Iau, 10 Rhagfyr. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Sioe Nadolig – cynhaliwyd y sioe Pantolig ar bnawn a nos Fawrth, 15 Rhagfyr. Mwy o fanylion a lluniau yn yr Eco nesaf.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

CRONFA'R HENOED. Enillydd Pel Bonws Loteri mis Tachwedd oedd Mrs Carole Porter.

YSGOL SUL BOSRA. Ar fore Sul, 6 Rhagfyr, am 10.15 y bore, aeth holl aelodau'r Ysgol Sul ac oedolion ar Drên Bach Llyn Padarn. Roedd anrheg i bob plentyn gan Siôn Corn a diod a mis pei wedyn yn y caffi. Diolch i Siôn Corn am ei eiriau caredig ac i'w helpwyr cyfeillgar. Diolch i Fiona am drefnu'r trip a sicrhau bore bendigedig i'r plant.

Cynhelir Ysgol Sul ar 13 Rhagfyr ac yna bydd seibiant tan y Sul wedi i'r ysgol ailgychwyn, sef 10 Ionawr.

Trist iawn gennym fel aelodau o'r Ysgol Sul a chyfranwyr i Gymanfa'r Methodistiaid oedd clywed am farwolaeth Elfed Hughes, Caernarfon, gŵr hynaws a gweithgar iawn fel Ysgrifennydd y Gymanfa – bydd bwlch mawr ar ei ôl. Ein cydymdeimlad llwyraf â'r teulu a chyfeillion iddo.

PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD GYMUNED. Tynnwyd Clwb Cant Rhagfyr a'r enillwyr oedd Dafydd a Helen Owen, Brynhyfryd ac Elen George, Sŵn yr Engan, Brynrefail.

Atgoffir chwi yn garedig y bydd angen adnewyddu'r aelodaeth o £6 y flwyddyn, 50c y mis, neu drwy Archeb Banc, ar ddiwedd mis Rhagfyr. Croeso cynnes i aelodau newydd – yn arbennig felly chwi rieni ifanc - fel bod modd cynnal y Neuadd yn effeithiol er budd defnydd i'r bobl ifanc.

Cynhaliwyd Noson Wasael, nos Fercher, 16 Rhagfyr, yn y Neuadd Gymuned gydag eitemau clodwiw gan blant yr ysgol, John Eifion a'r teulu, aelodau o'r Pwyllgor a chyfraniad gwerthfawr gan aelodau o Seindorf Arian Deiniolen. Mwynhawyd pwnsh poeth a mins pei i ddathlu'r Ŵyl.

GENEDIGAETH. Gyda balchder y llongyfarchwn Liz ac Eric, 17 Bryntirion, ar ddod yn nain a thaid am y trydydd tro. Ganwyd mab bychan, Efan Jac, i Sioned a Tirion. Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Gwyneth Jones ar ddod yn hen nain i Efan ac anfonwn ein llongyfarchiadau hefyd i Rhian a Cefin Roberts, rheini Tirion, ar ddod yn nain a thaid balch am y tro cyntaf. Wel, dyma Nadolig bendigedig i'r ddau deulu! Pob bendith i chi oll.

DIOLCH. Dymuna Gwenda Jones, Gofalwraig yr Ysgol Gymuned, ddiolch i Bwyllgor yr Eisteddfod am eu rhodd hael. Diolch yn fawr.

CYFARCHION. Gan na fyddant yn anfon cardiau Nadolig eleni, hoffai Dafydd a Helen Owen, Brynhyfryd, ddymuno Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

EGLWYS SANTES HELEN. Fore Sul, 20 Rhagfyr, am 11.00 o'r gloch y bore cynhelir Gwasanaeth Cristingl. Estynnir croeso i bawb ymuno â ni.

NOSWYL NADOLIG. Gweinyddir y Cymun Bendigaid am 11.30 yr hwyr a cheir Gwasanaeth i groesawu'r Nadolig. Dewch i ymuno â ni.

RHAGFYR 27. Cynhelir Gwasanaeth Undebol yn Eglwys Sant Deiniol, Llandinorwig am 2.00 o'r gloch y pnawn

DYMUNIR Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd lewyrchus i bawb.

EISTEDDFOD BENTREF

Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn y Neuadd Gymuned nos Wener, 20 Tachwedd. Eleni eto, bu'r cystadlu yn frwd a'r safon yn uchel. Y beirniaid teg a charedig oedd, Mrs Ann Thomas: Cerdd; Lyndsey Fôn: Adrodd; Arwel Jones, Llên; Eirian Pritchard, Caernarfon: Celf; Mair Griffith, Glasinfryn: Coginio.

Llongyfarchwyd yr ysgol am safon uchel y gwaith Llên , y Celf a'r Coginio. Bu cystadlu da yn yr Adran Uwchradd hefyd, yn arbennig yn yr Oedran dros 18 oed.

Cyflwynwyd Tlws Coffa Sharon am y llefarydd gorau oed Cynradd i Catrin Sara, Blwyddyn 4 – rhywbeth iddi i'w drysori am byth.

Nia Heledd, Blwyddyn 6, oedd y Prif Lenor Cynradd, gyda chanmoliaeth uchel. Prif Lenor Uwchradd, eto gyda chanmoliaeth uchel, oedd Anest Bryn, Blwyddyn 12. Llongyfarchiadau i'r tair ohonynt.

Diolchodd y Cadeirydd, Bronwen Jones, i bawb a gyfrannodd tuag at yr Eisteddfod mewn unrhyw fodd. Diolchodd yn arbennig i Dewi fel cyfeilydd ac i Marina ac Ann am hyfforddi'r canu a'r adrodd.

Bu'n wledd o noson a phwy a ŵyr, efallai y bydd rhai o'r cystadleuwyr yn blodeuo fel llefarwyr a llenorion disglair yn y dyfodol - diolch i'r Eisteddfod Bentref. Boed iddi barhau am flynyddoedd i ddod.

Catrin Sara Donnelly, Blwyddyn 4. Enillydd Tlws Coffa Sharon am y llefarydd Cynradd gorau.

Nia Heledd George, Blwyddyn 6. Prif Lenor Cynradd.

Harri a Morgan – Mreithrin – hefo'u medalau

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal
Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)
Hefyd
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

CHWILOTA

BOTANEGWYR 1912

Addewais y mis diwethaf gynnwys ymatebion pellach i hanes ymweliad y myfyrwyr o Crewe â Llanberis yn 1912. Rydw i'n eithaf di-glem ynglŷn â byd natur, yn enwedig gwahanol blanhigion, felly roeddwn yn falch o dderbyn sylwadau'r naturiaethwr Duncan Brown o'r Waunfawr. '*Diddorol,*' meddai, '*oedd darllen crynodeb o ddyddiadur Annie Robinson a ysgrifennwyd yn 1912.*' Bellach, cafodd yntau gyfle i ddarllen yr holl sylwadau, diolch i Arwyn Roberts. Mae ei sylwadau yn werth eu cynnwys yn eu crynswth. Dyma felly ddadansoddiad Duncan Brown o'r hyn a gofnodwyd yn Llanberis a'r cylch yn 1912.

'Roedd y planhigion y cyfeiriodd Annie atynt yn gymysgedd o rai sydd yn tyfu'n gyffredin yn yr ardal heddiw (e.e. eithin, gwern a ffa'r gors); rhai sydd yn annhebygol o fod yn tyfu yno heddiw er yn gyfarwydd mewn rhai ardaloedd yn y gogledd (e.e. plantain Alisma), ond a allasai fod yn tyfu yn nyffryn Llanberis yn ei chyfnod hi; ac yn drydydd, planhigion, mi dybiwn, oedd wedi eu camenwi ganddi (e.e. Valisneria). Nododd un planhigyn – y willow saffron – nad oes gen i y syniad lleiaf beth a olygai.

A'u cymryd yn eu tro a'u trefn: ym mannau gwlypaf y corstir rhwng Penllyn Padarn a hen Lyn Bogelyn ger Cwm y Glo y tyfai ffa'r gors, fel mae'n siŵr ei fod yn tyfu yno heddiw. Mae tair dalen hwn yn ymdebygu'n rhyfeddol i ffa, a phetalau gwyn ei flodau o ansawdd lliain baddon. Mae'r plantain (Alisma) neu Llyriad-y-dŵr yn weddol gyffredin heddiw mewn corsydd mwy calchog na'r math o fign sur a geir yn y cyffiniau dan sylw, ond pwy a ŵyr am y sefyllfa ganrif a mwy yn ôl? Ond, mae yna blanhigyn tebyg sydd yn perthyn yn agos i Alisma o'r enw Luronium natans, sef Llyriad-y-dŵr arnofiol. Cafodd hwn ei (ail?) ddarganfod gan Andy Jones yn Llyn Padarn yn 1997 yn ôl cofnodydd planhigion yr hen Sir Gaernarfon, Wendy McCarthy.

Mae'r cyfeiriad at Vallisneria, neu Rhuban y dŵr yn ddiddorol. Fy unig gof ohono yw ei brynu mewn siop pysgod trofannol i addurno acwariwm. Dywed y llyfrau arbenigol mai prin ac achlysurol ydyw fel planhigyn gwyllt, yn tyfu mewn dŵr sydd wedi ei dwymo – amodau annhebygol iawn os nad amhosibl yn Nyffryn Llanberis yn 1912. Cyfeiriodd Annie hefyd at Elodea, planhigyn a gyrhaeddodd wledydd Prydain o ogledd America yn 1842 i berwyl tebyg. Tybed a oedd Annie yn cadw rhyw fath o danc pysgod yn ei chartref yn Crewe ganrif yn ôl, fel yr oeddwn innau acw yn y Waunfawr hanner canrif yn ddiweddarach?

Heb unrhyw fodd o wirio cywirdeb rhestr o'r fath, mae'n rhaid ei derbyn fel cofnod cymdeithasol yn ogystal â chofnod botanegol.'

Gyda llawer o ddiolch am ateb trylwyr gan arbenigwr yn y maes. Ac i'r rhai ohonoch sydd â diddordeb mewn gwybod mwy am lên gwerin byd natur ac am fyd natur yn gyffredinol, yna, am wledd o wybodaeth ewch i ymweld â gwefan prosiect newydd Cymdeithas Edward Llwyd, sef Llên Natur. Cliciwch ar www.llennatur.com.

Daeth ymateb arall gan gyfaill a ddymuna aros yn ddienw, yn gresynu na fyddai Annie Robinson neu eraill o'r cwmni, wedi cofnodi enwau Lladin y gwahanol blanhigion (bu dadl ynglŷn â hyn ar raglen radio Gwilym Owen yn ystod y mis, ac ateb Gerallt Pennant i'r ddadl honno yn Y Cymro). P'run bynnag am hynny, aeth y cyfaill ati i restru enwau Cymraeg y planhigion a gofnodir. Maent yn hynod swynol a disgrifiadol. Dyma rai ohonynt: Tafod y Gors, Chwys yr haul, Tegeirian Brych, Ffugalau, Gold y Gors, Corswelltyn amryliw, Lili Ddŵr Wen, Llwynhidydd, Dyfrllys, Brenhines y Weirglodd, Melog y Waun, Glesyn y Coed, Tresel y Moch, Gwlith yr Haul, Helygen Mair, Corhelygen a Chorswigen.

Gan fod casglu planhigion (fel casglu wyau adar erstalwm) yn beth digon cyffredin yn ystod y ganrif ddiwethaf a chyn hynny (onid dyna ddenodd y twristiaid cynnar i'r ardal?) tybed a oedd rhai o'r planhigion prinnach ar ddifancoll oherwydd casglwyr?

Rhaid gadael hanes Annie Robinson a'i chyd-fyfyrwyr i'r arbenigwyr botanegol am y tro, ond diolch o galon am yr ymateb.

Siopau Cwm y Glo ers 1907

Dacth y rhestr a'r wybodaeth gynhwysfawr isod gan Eryl Roberts, Llanrug (Hughes, Cwm y Glo gynt), ac addewais y mis diwethaf y byddwn yn ei chynnwys. Felly, dyma waith darllen a hel atgofion i'r rhai ohonoch oedd yn adnabod pentref Cwm y Glo. Daeth llawer o'r wybodaeth am y siopau gan y diweddar Llew Hughes (tad Eryl), a fu'n cadw busnes ei hun yn y Cwm am flynyddoedd.

Craig y Don (Tŷ Pen) : Thomas Hughes a'i weithdy saer. Roedd yn ymgymerwr claddu hefyd.

Tai Stepiau: Betsan Parry yn gwneud canhwyllau a gwerthu coed tân.

Tai Stepiau: gwerthu llestri.

Idwal Parry, wedi colli ei goes yn y Rhyfel Mawr – joiner.

1 Glan Dŵr: Meri Jones yn gwerthu pennog picl a nionod.

Eirianfa: William Roberts, crydd, a hefyd yn gwerthu esgidiau.

Lewis a Leusa Thomas (Leusa Tŷ Capel): gwerthu da-da.

Glanbogelyn: cigydd.

Tafarn y Fricsan: Ifan Williams,

Siop y Stesion: R.O.Williams. Roedd y Stesion ei hun yn derbyn nwyddau i fusnesau'r ardal, yn enwedig glo.

Bodiestyn: Huw Parry, barbwr.

Catrin Jones: da-da.

Dinorwic Stores: sef yr hen Siop Fawr a losgwyd yn y 1960'au cynnar. Roedd sawl person wedi ceisio cadw busnes yma, ond neb wedi bod yn llwyddiannus iawn. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf roedd injaroc yn cael ei wneud yno, a byddai Llew Hughes yn blentyn yn cael tynnu'r cyflaith ar hoelen ar y wal a'i dynnu a'i ail-dynnu'n hir. I wneud y broses yn haws rhaid oedd poeri ar y dwylo! Mr Angel oedd y perchennog bryd hynny, ac roedd ganddo boli parot a floeddiai 'siop' bob tro deuai cwsmer drwy'r drws. Roedd moch yn cael eu cadw yng nghefn y siop hefyd.

Mr R. Hughes (tad y diweddar Mrs Glenys Pritchard): crydd.

Goleufryn: Cymdeithas Eryri, sef cwmni benthyca arian a gosod morgeisi. John Roberts oedd yn gyfrifol am y cwmni. Roedd ei wraig, Saesnes, yn athrawes yn ysgol y pentref.

Manchester House: Swyddfa'r Post, ond hefyd yn gwerthu bwydydd a glo. Roedd busnes mawr gan Ellen Jones, yn prynu nwyddau o ardaloedd fel swydd Gaerhirfryn a swydd Efrog. Roedd y post hefyd yn bwysig, gan ofalu am ddidoli a rhannu llythyrau a pharsel i ardal eang. Roedd pedwar postmon yn gweithio yno ar un adeg. Mae'n siŵr fod amryw yn cofio gweld marc post Cwm y Glo RSO – sef 'Royal Sorting Office'.

Alexandra House: hen dŷ tafarn, a'r garej ble roedd y goets fawr yn cael ei chadw, gyda stablau i'r ceffylau yn y cefn.

Pant Afon: Lizzie Davies a'i thad yn gwerthu da-da ac yn crasu bara i drigolion Cwm mewn popty mawr. Gwneud bara a chacennau hefyd.

London House: John Griffiths yno gyntaf, yn cael ei ddilyn gan Eric Williams, yn gwerthu dillad i'r holl ardal.

Ble mae Oriel Cwm heddiw roedd y Swyddfa Bost ar un cyfnod, ond bu cigydd a groser yno hefyd.

Tai Groeslon: siop pob dim.

Mae'r becws presennol yn weddol ddiweddar; yn cael ei gadw gyntaf gan Mr a Mrs Watkins a Mr a Mrs Chick. Y drws nesaf iddo roedd garej Mr Thompson, a Catrin Jones cyn hynny. Aeth hi oddi yno i'r Aber Bellaf i werthu penwaig.

Glanbogelyn: gwerthu paraffin.

Newborough: hen dafarn a ddaeth wedyn yn siop sglodion.

Dros y ffordd roedd adeilad a fu'n bost unwaith, ac yn gwerthu papur newydd. Wedyn yn siop Mrs Sharpe.

Ble mae dwy garej ochr yn ochr erbyn hyn roedd hen dafarn y Blue Bell: tafarn wyllt iawn yn ôl pob sôn! Yn nhai Tan y Marian roedd Dafydd Teiliwr. Roedd teiliwr hefyd yn y Rhes Isaf. Bu cymeriad a alwyd yn Jim Cadi Refail yn cadw siop sglodion yn y Cwm yn gynnar iawn yn y ganrif ddiwethaf.

Bu taid Maureen Rhys yn cadw gweithdy haearn gyr yng nghefn y tŷ hefyd.

Dechreuodd Llew Hughes gadw siop ym mharlwr Seiont House yn 1927 cyn symud ymlaen yn y 1940'au i Manchester House. Roedd James Jones a David Davies yn Seiont House o'i flaen.

Mae'n syndod i ni heddiw ddychmygu fod cymaint o fusnesau amrywiol mewn lle mor fychan â Chwm y Glo ond, wrth gwrs, roedd angen i'r rhan fwyaf o bentrefi fod yn hunan-gynhaliol bryd hynny. Diolch i Eryl am grynswth o wybodaeth am siopau un arall o bentrefi'r fro. Dyna ni bellach wedi cael rhestr go faith o siopau Deiniolen a Chwm y Glo.

Beth am weddill y pentrefi? Yn hytrach na gwylio sothach ar y teledu dros y 'Dolig, steddwch i lawr a rhestrwch yr holl siopau a busnesau oedd yn

parhad ar dudalen 11

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17eg o Dachwedd adroddwyd:

• fod cwyn y Cyngor ynglŷn â gor-yrru ar y ffordd ger Cwm y Glo wedi'i anfon ymlaen i'r adran drafnidiaeth.

• nad oedd giât cae chwarae Nant y Glyn pob amser yn cael ei chau ar ôl gemau a bod angen cadw llygad ar hyn.

• y byddai holiaduron yn cael eu hanfon i dai yng Ngwm-y-glo i gael eu barn ar ddatblygiadau yn y pentref, a gobeithir trefnu cyfarfod cyhoeddus ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

• fod cais am grant wedi'i wneud o gronfa Trefi Taclus er mwyn tacluso pentref Cwm y Glo.

Penderfynwyd gwrthwynebu cais amlinellol i godi 6 annedd a chreu mynedfa gerbydol ar lain o dir cyfagos i Parc Isaf, Llanrug, ar y sail fod hyn yn or-ddatblygiad o'r safle a phryder ynglyn â mynedfa i'r tai.

Doedd dim gwrthwynebiad i geisiadau am newidiadau i Erw Fair, Cwm y Glo, na Bro Garnedd, Cefn Elan, Llanrug. Penderfynwyd:

• peidio ariannu prosiect Amgueddfa Lechi Cymru.

• Cefnogi'r gofyn am ymestyn a gwella'r reilings diffygiol ger Ysgol Gynradd Llanrug.

Adroddwyd fod y Comisiwn Ffiniau yn cynnal Arolwg o ffiniau etholiadol y sir, gyda'r bwriad o leihau y nifer o Gynghorwyr Sir. Cytunwyd ei drafod eto mis nesaf.

parhad o dudalen 10

bodoli yn eich pentref chwi. Siawns na chawn ni gofnod llawn o fywyd masnachol y fro yn ystod y ganrif ddiwethaf.

Chwarelwr ar Goll

Ym mis Ebrill 1925 hefyd daethpwyd o hyd i gorff Richard Williams, Bryniau Gerddi, Llanberis, yn Llyn Cwm Dwythwch. Roedd wedi bod ar goll ers dechrau Rhagfyr y flwyddyn cynt. William Jones, Pant y Cafn, a dau o'i feibion a ganfu'r corff. Yr hyn oy'n taro'n od ynglŷn â'r hanes yw i William Jones honni iddo freuddwydio am Richard Williams yn eerdded i gyfeiriad rhyw lyn, ond na wyddai pa lyn ydoedd.

Lladrata Beiddgar yn Llanrug

Yn Y Genedl Gymreig ym mis Tachwedd 1907 adroddir fel y *'brawychwyd trigolion Llanrug gan ladrata beiddgar.'* Beth oedd i'w gyfrif am y fath ddisgrifiad meddech chwi? Wel, dwyn dillad oddi ar lein yn Tŷ Newydd! Ond ar yr un noson, diflannodd pymtheg o ffesantod o Gastell Bryn Bras, a chynigiodd Mr Barnard, perchennog y castell £5 o wobr i unrhyw un allai arwain at ddal y lladron. *'Gresyn,'* meddai gohebydd *Y Genedl*, *'fod gweithredoedd fel hyn yn anurddo pentref tawel fel Llanrug.'*

A dyna ddigon tan y flwyddyn nesaf, a dechrau degawd arall. Ac yn ystod y flwyddyn 2010 bydd Chwilota yn dathlu pen-blwydd yn ddeg ar hugain oed. Daeth cryn dipyn o wybodaeth am hanes y fro i'm sylw dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'n siŵr fod llawer mwy i ddod. Felly, anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286 673515).

CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2010

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 4 Mawrth, ac mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn siec o £50 yr un.** Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!



Cofiwch mai un llythyren yw DD, LL, TH

AR DRAWS

1 Nofel i blant gan Emily Huws am fywyd merch y mae ei mam yn brwydro dros achosion gwyrdd (3)
4 Addasiad Myrddin ap Dafydd o lyfr i blant bach am byped a ddaeth yn fyw (7)
7 Cyfenw awdur y ddrama *Tyner yw'r Lleuad Heno* (5)
8 Ffuglen fyrlymus mewn tair dinas gan Jon Gower (4'1, 4)
9 Nofel wedi'i lleoli ym Mhen Llŷn gan Alun Jones, *Ac ___ Clywodd Sŵn y Môr* (3)
10 Enw cyntaf awdur yr hunangofiant *Llwch* (5)
14 Ail nofel Gymraeg Catrin Dafydd (1, 7, 5)
19 Nofel gan Meinir Pierce Jones am hen gartref sy'n llawn cyfrinachau (4, 3, 2, 4)
21 a **22** ar draws, a **23** i lawr Clasur o nofel gan Caradog Prichard (2, 3, 3, 5)
26 Cyfrol o gerddi gan Dafydd Wyn Jones, Bro Ddyfi (9)
27 Dau air cyntaf hunangofiant Trebor Edwards (2, 3)
28 a **29** Nofel gan Siân Melangell Dafydd a enillodd Fedal Ryddiaith 2009 (1, 6, 3)

I LAWR

2 ____ *fy Arglwydd*, cyfrol gan Gwynn Williams am ganolbwynt y neges Gristnogol (5)
3 Enw iawn Yogi sydd wedi cyhoeddi ei hunangofiant dirdynnol (5)
4 *Pedwar ____ Pinc a'r Tei yn yr Inc*, cyfrol gan Myrddin ap Dafydd (4)
5 Casgliad o straeon, cerddi a llên meicro gan Manon Rhys (6, 3)
6 Cyfrol iasoer gan Dyfed Edwards, ____ *a Storïau Eraill* (5)
11 Nofel gan Gareth F. Williams, ____ *Jyncshiyn – y ddynes yn yr haul* (4)
12 Un o glasuron T. Llew Jones am anturiaethau Twm Siôn Cati, ____ *o'r Diwedd* (4)
13 Enw cyntaf awdur y nofel Mr Blaidd (4)
15 Enw sarff mewn llyfr gan Gwawr Maelor yn y gyfres Tipyn o Gês (4, 5)
16 Casgliad o gerddi Margaret Rees Owen, *Cerddi ____-y-cwrt* (4)
17 Enw awdur *Cario'r Ddraig – Stori El Bandito* (4)
18 *Rhag pob ____*, cofiant Gwynfor Evans gan Rhys Evans (4)
20 Cyfrol gan John Davies a Marian Delyth, ____ *– y 100 Lle i'w Gweld cyn Marw* (5)
23 gweler **21** ar draws
24 Cyfenw awdur gwreiddiol *Y Bachgen Mewn Pyjamas* (5)
25 ____ *Credu – Hunangofiant Meddyg* gan Joshua Gerwyn Elias (4)

ENW

CYFEIRIAD

ENW'R PAPUR BRO

Anfonwch y croesair at: Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2010. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.

Gall chwilio gwefan www.gwales.com eich helpu gyda'r atebion

gwales.com
llyfrau ar-lein

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

DIWRNOD Y LLYFR 04.03.2010

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: Eco'r Wyddfa

AGE Concern

Os byddwch yn cysylltu a swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud a chynrychiolydd penodedig o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACEnt wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) er gyfer cyfryngiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestredig

A464ANIS107M0001562 09

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

DYMUNA Ceris a Gwyndaf Williams Tan y Cae, Bethel, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn ar achlysur dathliad eu Priodas Aur ar y 14eg o Dachwedd.

CYFARCHION Y TYMOR. Dymuna Mair Jones, Cilan, Tan y Cae, Bethel, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni. Diolch yn fawr iawn am bob cymwynas, caredigrwydd a chyfeillgarwch a dderbyniodd yn ystod y flwyddyn diwethaf.

PEN-BLWYDD HAPUS i'r efeilliaid – David Evans, Caernarfon, ag Ann Parry, 3 Stad y Rhos, Bethel, ar eu pen-blwydd yn 50 oed ar Ionawr y 3ydd 2010. Cariad mawr oddi wrth mam, dad a'r teulu, Pen Parc, Bethel.

PEN-BLWYDD HAPUS i Taid, Pen Parc, ar y 4ydd Ionawr, 2010 oddi wrth, Einir, Aled, Richard, Siôn a Catrin.

Y CYSEGR. Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul. Cynhelir ar fore Sul, 20 Rhagfyr, am 10 o'r gloch. Dewch yn llu i gydaddoli gyda'r plant. Yn dilyn y gwasanaeth bydd te parti i'r plant yn y Festri gyda ymweliad, gobeithio, gan Siôn Corn.

BORE DYDD NADOLIG. Ar fore Dydd Nadolig, am 10 o'r gloch, cynhelir Gwasanaeth Cymun o dan ofal y Gweinidog, Y Parch. Marcus Wyn Robinson. Fel arfer, gwahoddir aelodau o wahanol eglwysi'r cylch i ymuno â ni yn y dathlu. Croeso i bawb.

NOSON GOFFI. Cafwyd cefnogaeth da iawn i'r Noson Goffi a gynhaliwyd yn y Festri yn ddiweddar wrth i bawb fwynhau ei hunain yn prynu teisennau a theganau a chymdeithasu dros baned. Yr oedd elw'r noson, sef £356, yn mynd tuag at y gost o dalu am ail wneud wal y Capel.

Diolchwyd i bawb oedd wedi troi i mewn, ac i'r merched am y paratoi gan y Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, a chyhoeddwyd mai Elan Jones, Fachell, a enillodd y jar 'Dolly Mixtures' a Tomos Jones, Llanfrothen, a enillodd y dyn eira. Gobeithir trefnu gweithgareddau eraill yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

CLWB BRO BETHEL. Y Bedol oedd man cyfarfod y mis yma ac yng nghwmni 35 o aelodau cafodd pawb ginio Nadoligaidd blasus iawn. Welodd neb Siôn Corn ond roedd wedi bod yno cyn i bawb gyrraedd gan adael anrheg ar y bwrdd i bob un. Clywyd sibrydion mai rhywun o Swyddfa'r Post oedd yn gyfrifol!

Croesawyd pawb yno gan y Parchedig Marcus Wyn Robinson a diolchodd yn arbennig i Staff Y Bedol ac i Mr a Mrs Kalsi am gynnig telerau arbennig, ac i Susan a Cledwyn, Y Post. Diolchwyd hefyd i Ann Ellis Williams, Ivy Wright a Glenys Griffiths am yr holl drefniadau gan Elizabeth Evans.

Gwerthfawrogwyd yn fawr iawn yr holl wobrau raffl a ddaeth i law.

Dymuna'r aelodau Nadolig Llawen a Blwyddyn newydd dda i bawb yn y pentref a bydd y cyfarfod nesaf ym Mis Chwefror.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Dathlu'r Nadolig ar lafar ac ar gân fu hanes yr aelodau y mis yma a hynny yn Festri'r Cysegr. Wrth groesawu pawb, diolchodd y Llywydd, y Dr. J. Elwyn Hughes, i bawb am gymryd rhan yn, unigolion a'r parti canu; i Eirlys Sharpe am ofalu am y lluniaeth ac i Glenys Griffiths am drefnu'r rhaglen. Darllenwyd cerddi gan Beti, Nora, Eirlys a Glenys i gyd fynd ac adnodau o'r Beibl gan y Parchedig Marcus Wyn Robinson ac yna canwyd tair carol gan y parti merched. Tro y dynion oedd hi wedyn gyda Jenkin, Geraint a Richard yn cyfrannu wrth ddarllen deunydd Nadoligaidd gan y Parchedig Ddr. Alwyn Roberts, Aled Lewis Evans a'r Dr. Mererid Hopwood. Diolch i Beti am gyfeilio i'r parti ac i'r canu cynulleidfaol. Braf oedd cael cymdeithasu ar y diwedd dros baned.

MERCHED Y WAWR. I Dafarn yr Afr, Glandwyfach yr aeth yr aelodau eleni am eu cinio Nadolig. Croesawyd pawb yno gan Mair Read, y Llywydd, a llongyfarchwyd Gwenan, merch Anne Elis, ar enedigaeth merch fach, Elliw Prys. Yn dilyn pryd o fwyd blasus iawn roedd rhaid i bawb wedyn ganolbwyntio a chrafu pen dros gwis wedi ei baratoi gan Richard Llwyd. Cafwyd digon o sbort wrth ddarganfod pwy oedd berchen ambell wyneb! Bwrdd Edwina, Deilwen, Eryl a Sharon oedd yr enillwyr a bu i bawb fwynhau'r noson yn fawr iawn.

Atgoffir pawb y bydd angen bonion y llyfrau raffl a'r arian erbyn cyfarfod mis Ionawr pan fydd Linda Hughes 'Calon Lân' yn rhoi sgwrs i'r aelodau.

EISTEDDFOD BETHEL

'Dyma hanes a chanlyniadau o'r Eisteddfod nad ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf.'

Cynhaliwyd yr eisteddfod ddydd Sadwrn, Tachwedd 7fed yn y Neuadd Goffa. Y Beirniaid oedd –Cerdd: Huw Alun Ffoulkes, Caerdydd; Llên a Llefaru: Tammi Gwyn, Llanrug; Celf: Nia Hughes, Rhosgadfan. Yr Arweinyddion oedd: Nia Guillemin, Mari Williams, Anita Owen ac Ann Lloyd Jones. Y Cyfeilyddion oedd: Helen Morris, Siôn Elwyn, Gethin Wyn Griffiths, Manon Gwynedd, Glenys Griffiths a Deilwen Hughes. Ilid, Lowri a Gwenno oedd yn dosbarthu y rhubanau a Gwion John a Siôn Alun yn rhedwyr canlyniadau. Rhian Hughes a Nora Parry oedd yn cadw trefn ar y llwyfan ac Edwina Morris a Nora yn darparu'r baned.

Bu aelodau'r pwyllgor a chyfeillion yn stiwardio a gwerthu raffl gyda nifer fawr o wobrau yn rhoddedig gan fusnesau lleol a chyfeillion. Mrs Deilwen Hughes. y Llywydd, fu'n talu'r diolchiadau yn ystod cyfarfod y pnawn a'r nos.

CANLYNIADAU

Llên. Dosbarth Meithrin (ysgol) 1. Bryn, Cyd. 2ail. Llinos a Tomos, cyd 3ydd Beca ac Alaw Mai. *Dosbarth Derbyn.* 1. Gethyn, 2. Owain, Cyd 3ydd Joe a Cai. *Blwyddyn 1.* 1. Elis Jones; cyd.ail Lowri Angharad Jones a Chloe Michelle Jones, Cyd 3ydd Rhys Hughes a Ceri Michelle Jones.

Blwyddyn 2. 1. Twm Henri, 2. Heledd, 3. Ilan. *Blwyddyn 3.* 1. Anest Haf Roberts, 2. Angharad Jones, 3. Cara Jones. *Blwyddyn 4.* 1. Elan Jones, 2. Sara Dylan, 3. Nathan Hughes ac Owain Thomas. *Blwyddyn 5.* 1. Iwan Parry, cyd 2. Rhianwen Williams ac Elen Haf Ifans, 3 Dyfan Elis Hughes. *Blwyddyn 6.* 1. Rhys Grail, 2. Aron Gwyn Jones, 3. Hari Ifans.

Enillydd Tlws Llenor yr Ysgol Gynradd: sef Tlws y Gymdeithas Lenyddol, oedd Rhys Grail.

LLên Uwchradd *Bl. 7-9* 1. Lowri Huws, 2. Rhydian Price, *Bl. 10-13* 1. Gethin Wyn Griffiths, 2. Bethan Roberts, 3. Gethin W. Griffiths.

Enillydd Tlws Llenor yr Ysgol Uwchradd: sef Tlws Merched y Wawr, er cof am Miss Maggie Owen oedd Gethin Wyn Griffiths. **Cwpan Teulu Llain yr Ardd** am unrhyw ffurf o ryddiaith: 1. Gwen Lasarus, 2. a 3. Richard Llwyd Jones. Llinell Goll 1. Beti Owen, 2 a 3. Manon Dauncey Griffiths.

GWAITH CELF

Creadigol 2D.Ysgol Feithrin: 1. Elis Jones, 2. Owain Jones, 3. Gwenllian Medi Owen. *Dosbarth Meithrin* 1. Teigan, 2. Tomos, 3. Zara. *Dosbarth Derbyn* 1. Joe a Gethyn, 2. Erin, 3. Millie May. *Blwyddyn 1.* 1. Elan, 2 Dylan Sion, 3. Morgan Rees. *Blwyddyn 2.* 1. Cerrian, 2. Heledd, 3. Anya. *Blwyddyn 3.* 1. Kyle ac Ywain Emrys, 2. Angharad, 3. Cara. *Blwyddyn 4.* 1. Gethin, 2. Elan, 3. Emma. *Blwyddyn 5.* 1. Emma, 2. Elen, 3. Penny. *Blwyddyn 6.* 1. Siôn Lomas a Siôn Alun Jones, 2. Niamh Jones, 3. Gwenno Parry. *Bl 7-9.* Erin Jones. *Bl. 10-13.* 1. Bronwen Price, 2.a 3. Ffion Roberts.

FFOTOGRAFFIAETH

Bl. 2 ac iau. 1.Gethyn, 2. Ceriann, 3. Siôn Lewis. *Bl. 3 a 4.* 1. Owain Lewis Jones, 2. Emma Haf. *Bl. 5 a 6.* 1. Elen Haf Ifans, 2 a 3. Gwion John. *Bl. 7-9.* cyd laf, ail a 3ydd. Sion Emlyn. *Bl. 10-13* 1. Bethan Roberts.

Argraffu neu addurno ar ffabrig: 1. Tomos Siôn Morris, 2. Erin Roberts, 3 Beca Fflur. *Bl. 3 a 4.* 1. Iolo Llŷr. Collage. *Derbyn 1 a 2.* 1. Siôn Arfon, 2. Celt Moss, 3. Jac Edwards. *Bl. 3 a 4.* 1 Emma Haf, 2. Iolo Llŷr. *Bl. 5 a 6.* 1. Elen Haf, 2. Gwenno Parry. *Bl. 7–9.* 1. Elliw Lewis Jones. Gwaith Creadigol 3D. *Bl 2 ac iau.* Tomos Siôn Morris, 2. Cai Llwyd Jones. *Bl. 3 a 4.* 1. Ywain Emrys. *Bl. 5 a 6.*

PADARN LAKE
LLANBERIS (01286) 870260

PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD
CANOL DYDD
A GYDA'R NOS

Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG A CHWM-Y-GLO

Cynhaliwyd yr Eisteddfod eleni ar y 13eg o Dachwedd yn Neuadd Ysgol Brynrefail. Cafwyd noson i'w chofio gyda'r cystadlu yn gorffen oddeutu un o gloch y bore! Roedd cystadlu brwd o'r eitem gyntaf, lle bu y plant lleiaf yn ein diddori, hyd y corau olaf, lle bu y bechgyn a'r merched ifanc yn rhoi gwledd o ganu i ni.

Y Beirniad Cerdd oedd Nia Efans, arweinyddes Côr Aelwyd Yr Ynys, ac Eifion Harding oedd yn beirniadu y Llefaru. Daeth Bethanne Williams a Kelly Jones i feirniadu y Dawnsio Gwerin a Disgo.

Cafwyd Teilyngdod i'r Gadair - Bu i Ffion Erin fod yn llwyddiannus, yn ogystal enillodd Anna Wyn Jones Tlws yr Ifanc. Y Beirniad oedd Bedwyr Rees ac er nad oedd yn gallu bod yn bresennol ar y noson rhoddodd feirniadaeth i'r holl ddarnau.

Cafwyd trefn newydd ar y cystadlu Celf a Chrefft eleni ac fe agorwyd y neuadd wedi'r beirniadu i'r cyhoedd gael mwynhau y wledd o gynnyrch a ddarparwyd gan y plant a thrigolion y pentref. Beirniadwyd y gwaith celf gan Gwyndaf Rowlands, sydd yn gweithio fel Dylunydd i *Uned 5.* Daeth Wendy Thomas o *Casa Dudley* i feirniadu y cynnyrch coginio a daeth Iwan Williams i feirniadu y ffotograffiaeth.

Hoffwn, fel pwyllgor, ddiolch i'n holl gyfranwyr, i'r Arweinyddion ar y noson, y Cyfeilyddion, Ruth Rowlands a Sian Wheway, yr hyfforddwyr ac, wrth gwrs, i'r plant a'u rhieni am y gefnogaeth.

Hoffai Pwyllgor Eisteddfod Llanrug a Chwm Y Glo ddiolch i'r canlynol am noddi'r eisteddfod eleni:
Y Cyngor Cymuned; Y Dyn Cig; London Garage; J.M. Jones a'i Feibion; Post Llanrug; Merched y Wawr; Siop Trin Gwallt Elaine's; Parc Gwyliau Brynteg; Di-enw.

Canlyniadau'r Gwaith Celf

Arlunio Meithrin: 1. Beth Whiteside Thomas; 2. Erin Gibbard; 3. Caio Sion / Buddug Penant Jo. *Derbyn:* 1 Bejamin Ifan; 2. Hannah Catrin Roberts; 3. Mali Elin Brooks / Mared Llwyd. *Blwyddyn 1:* 1. Nanw Llwyd; 2. Deian Llyfni; 3. Nel Pennant Jones. *Blwyddyn 2:* 1. Osian Eifion Land; 2. Cara Wyn Jones; 3. Cian Gibbard. *Blwyddyn 3:* 1 Rhydian Williams; 2. Leisa Brown; 3. Coco. *Blwyddyn 4:* 1. Pensal Pinc; 2. Harri Huws Tulliver; 3. Chiter / Fan. *Blwyddyn 5:* 1. Ceri Fflur Griffiths; 2. Sion Eifion Land; 3. Megan Wyn Pritchard. *Blwyddyn 6:* 1. Gwydio Rhys; 2. Math Roberts; 3.Finley Clough. *Blwyddyn 7 ac 8:* 1. Hannah Huws Tulliver; 2. Iwan Jones; 3. Mari Gibbard

Blwyddyn 9 a 10: 1. Tomos Huws Tuillver; 2. Anna Wyn Jones; 3. Anna Wyn Jones.
Blwyddyn 11, 12 ac 13: 1. Llywelyn Williams; 2. Llywelyn Williams; 3. Llywelyn Williams.
Cwpan Emma Bernard
Tomos Huws Tulliver
Dyluniad Cyfrifiadurol
Babanod: 1. Osian Eifion Land; 2. Erin Wyn Williams; 3. Leia Nel Williams. *Oedran Iau:* 1. Sion Eifion Land; 2. Teleri Medi; 3. Anna Whiteside Thomas. *Uwchradd:* 1. Rhun Williams; 2. Anna Wyn Jones; 3. Llywelyn Williams.
Ffotograffiaeth
1. Sion Eifion Land; 2. Misha Lyndon; 3. Megan Wyn Pritchard.
Tri Dimensiwn
Meithrin/Derbyn: 1. Erin Gibbard; 2. Enlli Llwyd Jones; 3. Mared Llwyd. *Blwyddyn 1 a 2:* 1. Cara Wyn Jones; 2. Osian Eifion Land / Deian Llyfni; 3. Elis Gruffudd Edwards. *Blwyddyn 3 a 4:* 1. Moli Wyn Pritchard / Matthew Wiggins; 2. Anna Whiteside Thomas / Leisa Gwenllian; 3. Teleri Medi. *Blwyddyn 5 a 6:* 1. Math Roberts; 2. Deian Wyn Williams; 3. Sion Eifion Land
Uwchradd: 1. Iwan Jones; 2. Anna Wyn Jones.
Gosod Blodau
Agored: 1. Meirwen Lloyd; 2. Mrs M Parry; 3. Megan Wyn Pritchard.
Tecstiliau
Babanod: 1. Erin Haf Williams; 2. Cara Wyn Jones / Mali Elin Brooks; 3. Osian Eifion Land
Oedran Iau: 1. Catrin Smith / Sion Eifion Land; 2. Teleri Medi Jones; 3. Gethin Wyn Jones. *Uwchradd:* 1. Anna Wyn Jones. *Agored:* 1. Julie Jones; 2. Eirianwen Thomas; 3. Eirianwen Thomas.
Coginio
Meithrin / Derbyn: 1. Caio Sion; 2. Beth Whiteside Thomas; 3. Erin Gibbard. *Bl.1 a 2:* 1 Osian Eifion Land; 2. Cari Wyn Pritchard / Leia Nel; 3. Cara Wyn Jones. *Bl. 3 a 4:* 1. Teleri Medi Jones/ Anna Whiteside Thomas; 2. Leisa Gwenllian Brown / Efa Lewis Roberts; 3. Moli Wyn Pritchard. *Bl. 5 a 6:* 1. Llinos Elin Roberts / Megan Wyn Pritchard/ Osian Gruffudd Edwards; 2. Gethin Wyn Jones / Deian Wyn Williams; 3. Beca Llwyd. *Bl. 7,8 a 9:* 1. Rhun Williams / Anna Wyn Jones; Bl. 10,11,12 ac 13: 1. Elain Sian Roberts; 2. Rhodri Williams; 3. Llywelyn Williams. *Merched:* 1. Olwen Hughes; 2. Sian Wheway / Eirianwen Thomas. *Dynion:* 1. Dafydd Roberts; 2. Dylan Wyn Williams; 3. Dafydd Whiteside Thomas. *Coginio Jam / Marmaled:* 1. Gill Brown/ Eirianwen Thomas; 2. Dafydd Roberts; 3. Manon Williams. *Siytni:* 1. Olwen Hughes; 2. Miriam Catrin Lennon Jones; 3.

Ffion Erin Williams yn ennill y Gadair ac Anna Wyn Jones, enillydd Tlws yr Ifanc.

Manon Williams. *Coctel:* 1. Dafydd Roberts.
Canlyniadau Llwyfan
Unawd Dosbarth Derbyn: 1. Iolo; Cyd.2. Mared a Ben; Cyd.3. Brychan ac Erin; *Llefaru Unigol Dosbarth Derbyn:* 1. Mared; 2. Ben; 3. Iolo; *Unawd Blwyddyn 1 a 2:* 1. Tomi; 2. Osian; Cyd.3. Elliw a Heledd; Llefaru *Unigol Blwyddyn 1 a 2:* 1. Deian; 2. Tomi; Cyd.3. Elliw a Cara; *Dawnsio Disgo i Unigolyn neu Grŵp Cynradd / Uwchradd:* 1. KSD; *Côr Babanod hyd at flwyddyn 2:* 1. Parti Ruth; *Parti Dawns Werin Cynradd / Uwchradd:* 1. Parti'r Rhos; 2. Parti Grug; 3. Parti'r Llan; *Unawd Blwyddyn 3 a 4:* 1. Miriam; Cyd.2. Leisa ac Iwan; 3. Ela; *Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4:* 1. Moli; Cyd.2. Leisa a Miriam; 3. Cai.
Grŵp Pop Cynradd / Uwchradd: 1. Mwncis Llanrug; 2. Candis Clên; Cyd.3. Hawaians a Mr Tei; *Deuawd Cynradd:* 1. Llinos a Lleucu; 2. Llinos a Lia; *Llefaru Unigol Blwyddyn 5 a 6:* 1. Beca; 2. Math; Cyd. 3. Gethin Wyn ac Osian; *Sgets Cynradd / Uwchradd:* 1. Criw Newyddion Hanner Awr Wedi Naw; 2. Criw'r Syrjeri; 3. Y Genod Drwg; 4. Ysbryd Llanrug; *Unawd Blwyddyn 5 a 6:* 1. Lleucu; 2. Ceri; 3. Llinos Elin; *Unawd Offerynnol Cynradd:* 1. Math; 2. Deian; Cyd.3. Ceri ac Angharad; *Deuawd Uwchradd:* 1. Anna a Beca; *Parti Llefaru Cynradd:* 1. Y Dreigiau Cochion; Cyd.2. Lleisiau Llanrug a Potato Wedges; *Parti / Côr Unsain Cynradd Blynyddoedd 3 – 6:* 1. Y Dreigiau Cochion; 2. Potato Wedges; 3. Lleisiau Llanrug; *Parti Llefaru Uwchradd:* 1. Y Bratz; 2. Spaghettis; *Unawd Offerynnol Uwchradd:* 1. Rhodri Gruffydd; 2. Rhodri Llŷn; Cyd.3. Llywelyn ac Elain; *Llefaru Unigol Uwchradd:* 1. Elain; 2. Heledd; Cyd.3. Llio ac Anna; *Unawd Uwchradd:* 1. Anna; 2. Gwern; Cyd.3. Mari a Rhodri Llŷn; *Unawd Cân Werin neu Gerdd Dant Cynradd / Uwchradd:* 1. Lleucu; Cyd.2. Ceri a Gwern; Cyd.3. Miriam a Leisa; Parti / *Côr Uwchradd / Agored:* 1. Côr Rwbath; 2. Yr Hogia.
Enillwyr y Tlysau Llwyfan
Cadair Lowri i Enillydd yr Unawd ym Mlynyddoedd 1 a 2: Tomi Llywelyn;
Cwpan W. Park Jones am y Cyflwyniad Llefaru / Llafar Gorau (Cynradd): Moli Wyn Pritchard;
Tlws Bwlchgwnog am y Perfformiad Cerddorol Cynradd Gorau: Math Roberts;
Tlws Er Cof am Eddie a Moreen Lennon am y Perfformiad Cerddorol Uwchradd Gorau: Anna Wyn Jones;
Rhodd Haf Roberts i'r Cyflwyniad Llefaru / Llafar Gorau (Uwchradd): Elain Sian Roberts.
Canlyniadau Llên
Blwyddyn 3 a 4: 1. Miriam Catrin; 2. Mathew Wiggins; Cyd.3. Leisa Gwenllian ac Owain; *Blwyddyn 5 a 6:* 1. Rhiannon Thomas; 2. Math Roberts; 3. Smarties; *Blwyddyn 7:* 1. Gwennan Jones; *Blwyddyn 8 a 9:* 1. Anna Wyn Jones; *Blwyddyn 10 ac 11:* 1. Ffion Erin Williams;
Tlws yr Ifanc: Anna Wyn Jones; 2. Mared Lois Williams.
Cystadleuaeth Y Gadair: 1af Ffion Erin Williams; 2il Christopher Roberts.

Brychan, Erin, Mared, Ben ac Iolo yn mynd i gystadlu ar y canu ac adrodd.

EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG A CHWM-Y-GLO



Genod Blwyddyn 2 Ysgol Gynradd Llanrug yn gwneud Y Ddawns Flodau.

Cai, Miriam a Moli yn cael eu gwobrau am Lefaru. Moli hefyd enillodd Gwpan W. Park Jones am y Cyflwyniad llefaru Gorau.

Buddug, Caio Siôn, Erin a Beth yn cael eu gwobrau am wneud llun.

Lleucu Brookes, enillydd Unawd Bl 5 a 6 ac Unawd Cerdd Dant.



Tomos Huws Tulliver, enillydd Cwpan Emma Bernard, am yr Arlunydd gorau.

Elain Roberts, enillydd Rhodd Haf Roberts, am y perfformiad llefaru gorau.

Tomi Llywelyn a enillodd Gadair Lowri.



Enillwyr y Grŵp Pop a ganodd 'Y Brawd Hwdini'.

Tylori, Anna, Matthew, Moli ac Leisa yn derbyn eu gwobrau.

Anna Wyn Jones yn derbyn Tlws er cof am Eddie a Moreen Lennon gan Ruth Rowlands, merch Eddie a Moreen.

Dosbarth Miss Grace Alwena Hughes, Ysgol Bethel 1964-1965

Mae'r plantos bach del yma yn dathlu eu pen-blwydd yn 50 oed yn ystod y misoedd nesaf. Pen-blwydd hapus i chi i gyd.

Tri bachgen ar y llawr (chwith i'r dde): Peter Jones, Cremlyn; Colin Jones, Min Awel; Dewi Williams, Seion. Rhes Gyntaf: Sheila Jones, Alice Jones, Heather (Boston House), Sulwen Owen, Helen Jones, Eleri Jones. Ail Res: Ann Jones, Gillian Whalley, Gwenda (Bryn Banon), Ann Evans, Carys Parry. Trydydd Rhes: Ifor Jones, Derek Jones, Russel Maggie, David Evans, Iolo Morgan ac Euron Griffith.

Parc am Godi Gwrychyn

Mewn ymgais i wella tirwedd, cynefinoedd a rheolaeth tir, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mewn partneriaeth â'r Tree Council a Stella Artois, yn awyddus i blannu hyd at 5km o wrychoedd newydd o fewn y Parc Cenedlaethol.

Fel rhan o'r ymgyrch 'The Real Hedge Fund' mae'r Awdurdod wedi sicrhau £8,000 i blannu 5km o wrychoedd cyn diwedd mis Mawrth 2010 ac mae'r swyddogion yn awyddus i glywed oddi wrth berchnogion tir sy'n awyddus i gymryd rhan yn y fenter. Mae'r ymgyrch hon yn rhan o ymgyrch ehangach gan The Tree Council, sy'n gobeithio plannu 73km o wrychoedd newydd ar draws y Deyrnas Unedig.

Bydd y gwrychoedd yn cynnwys drain duon a drain gwynion, cyll, celyn a chriafol, sef mathau o blanhigion sy'n gynhenid i'r ardal hon a byddant wedi eu tyfu o hadau lleol.

Wedi eu plannu, bydd y gwrychoedd yn darparu bwyd i famaliaid ac adar, byddant yn ffurfio llwybrau a rhwydweithiau pwysig i greaduriaid megis ystlumod, gwyfynod, lindys a'r pathew. Byddant hefyd yn cysylltu gwahanol gynefinoedd, yn gymorth i gysgodi anifeiliaid rhag y gwynt, y glaw a'r haul, yn ogystal â chynorthwyo'r ffermwyr i reoli eu tir.

Wrth gyhoeddi'r newydd, dywedodd Rhys Owen, Pennaeth Cadwraeth ac Amaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri,

'Mae hwn yn gyfle gwych i wella cyfleoedd i fioamrywiaeth gynhenid yr ardal hon i ffynnu yn ogystal â rhoi gwaith i ymgymerwyr a busnesau lleol a hybu math o wrychoedd sy'n nodweddiadol o dirwedd arbennig Eryri. Mae hefyd yn gyfle i ni gynorthwyo ffermwyr, i adfer nodweddion hanesyddol a thirwedd a chyfoethogi cynefinoedd bywyd gwyllt. Y cyfan sydd angen i bobl ei wneud yw cysylltu ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol am fwy o fanylion er mwyn dechrau plannu'r glasbrennau rhwng rŵan a mis Mawrth.'

Ar ran y Tree Council, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Pauline Black,

'Mae gweld cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd ar brosiectau fel hyn yn help i'n tirweddau i addasu a chefnogi bywyd gwyllt sy'n dibynnu ar dirweddau am fwyd a chysgod. Heb gefnogaeth Stella Artois, ni fyddai'r adnoddau wedi bod gennym a heb ymdrechion y bobl sy'n ymwneud â'r cynllun, ni fyddai'n bosib i'w gyflawni. Talwn deyrnged i egni ac ymdrech pawb sy'n ymwneud â'r cynllun.

I gysylltu â'r Parc ac i gofrestru eich diddordeb, ffoniwch (01766) 770274

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m. (Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)
10 a.m.–12pm (Diwrnod Nadolig)

Cewch groeso cynnes gan,
CLED A SUSAN A'R TEULU

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

R. L. DAVIES

Coed Bolyn Mawr, Bethel

Offer i'w logi ar gyfer:

- **tyllu *footings***
- **clirio gerddi**
- **neu unrhyw waith clirio safleoedd**

Hefyd: **Lle i wagio sbwriel *inert* a *Hardcore* ar werth**

Ffoniwch am fanylion
(01248) 671300
neu **(07775) 638620**

CYFARCHION NADOLIG BETHEL

CEIR CYMRU
BETHEL (01248) 670451
(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmniau mawr a chwmniau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafeilio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

CYFLENWYR PORTHIANT
IDRIS MORRIS
BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO

Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
01248 670439

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth bawb yn

GAREJ GWALIA

CAEATHRO

Ffôn: 673096

Gwasanaeth
Torri Lawr 24 awr
M.O.T. * Trwsio Ceir

LONDIS

Ar agor 7 a.m. – 10 p.m. bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayb

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i holl gyfeillion yr Antur ym mro'r Eco

Antur Waunfawr

01286 650 721 www.anturwaunfawr.org

ANTUR WAUNFAWR

FFAIR NADOLIG

RHAGFYR 4&5 • 11&12 • 18&19

Dydd Gwener 11.00-20.00 Sadwrn 10.00-18.00

SÊL ADDURNIADAU NADOLIG

Anrhegion • Planhigion • Bwlbiau • Rhithoedd a mwy

BLODAU LIENEKE
Cae Rhydau Pontrug LL55 2TN
Mobile- 07510 511 631

Web: http://www.blomstervill.no, • e-bost- blomstervill@robin. no

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

Pay Point, Papur Newydd, Cardiau Cymraeg, Cylchgronau, Bwydydd, Nwyddau Tŷ

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 – 6.00**
8.00 – 5.30 (Sadwrn) • **8.30 – 12.30** (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH CARMEN A PHAWB
YN NHAFARN Y

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: **(01286) 650218**

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Dewch gyda'r trên stêm o Gaernarfon ac aros

AM GINIO DA!

Rydym yn syrfio bwyd blasus drwy'r dydd, bob dydd o 11 am – 8.30 pm

A 'does dim rhaid dod ar y trên!
Cofiwch... **bob dydd Sul...**
cinio traddodiadol
Bwyd cartref blasus
o gynnyrch lleol

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

SNOWDONIA FIRE PROTECTION

YR HEN EFAIL, WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650235

Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445

OFFER DIFFODD TÂN – masnachol ac i'r cartref
OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
GOLEUADAU ARGYFWNG
LARWM TÂN, a llawer mwy
i'w gweld yn ein swyddfa.

Mae pawb yn

SIOP SGLODION Y PENTREF

THE VILLAGE CHIPPY

WAUNFAWR, Ffôn: 650683

yn dymuno Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

WELDPAR
CYMRU WALES

CANOLFAN OFFER WELDIO
WAUNFAWR Ffôn: 650720

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570



Brenda Wyn Jones, yr awdures, yn dangos i Enlli sut i wneud pont linyn.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau i Meurig Parry, Cae Rhos, ar gyrraedd ei ddeunaw oed. Dymuniadau gorau iti i'r dyfodol, Meurig.

DYMUNA Rol Williams, 5 Pant y Waun, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w gydnabod gan na fydd yn anfon cardiau.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yn y cyfarfod ar 3 Rhagfyr, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, y gŵr gwadd am y prynhawn, sef Mr Delwyn Williams, i ddangos lluniau i ni ar gân! Roedd ganddo luniau hyfryd o Eryri ar wahanol dymhorau o'r flwyddyn a'r rhain i gyd yn cael eu dangos gyda chantorion adnabyddus yn canu caneuon yn cyfleu neges am y lluniau. Diolchodd y Llywydd iddo am brynhawn difyr iawn.

Mwynhau ein cinio Nadolig y byddwn ar 7 Ionawr yng Nhafarn yr Afr yng Nglandwyfach.

CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Tachwedd oedd: £40: Mrs Ann Jones, Haulfryn; £20: Mr R. McDaid, Lloches; £10: Ms Carmen Pierce, Snowdonia Park Hotel.

DATHLU PEN-BLWYDD ARBENNIG IAWN. Dyna fu Meurig Llewelyn, Cae Rhos, yn ei wneud yn ddiweddar wrth gyrraedd ei ddeunaw oed. Llongyfarchiadau i ti, Meurig, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Bydd Mrs J.D. Roberts, Bryn Teg gynt, ond yn awr yn byw yng Nghaernarfon yn dathlu cyrraedd ei chant oed ychydig ddyddiau cyn Dydd y Nadolig. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da am ben-blwydd hapus, Mrs Roberts.

CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Huw, Trefeddyg, ar dderbyn Tlws y Gân Ysgafn yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

DYMUNO'N DDA. Dydd Sadwrn, 12 Rhagfyr, roedd Aaron Otten, Crud yr Awel, 4 Stad Pant Waun, yn hedfan i wlad Afghanistan gyda'i waith yn y Lluoedd Arfog. Mae ein dymuniadau da ni yn dod gyda thi, Aaron, a byddwn yn meddwl amdanat yn ystod y pum mis y byddi yno.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref o'r ysbyty i Mrs Llywela Davies, Stad Tref Eilian, wedi iddi dderbyn llawdriniaeth, ac hefyd i Mrs Jenifred Jones, Glyn Ceris, wedi iddi dderbyn triniaeth clun newydd. Dymunwn wellhad buan i'r ddwy ohonoch.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr Eurwyn Thomas, Stad Tref Eilian, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

PROFEDIGAETH. Ychydig wythnosau yn ôl daeth y brofedigaeth o golli eu tad i ran Valerie, June a Nigel Lewis, (8 Stad Ael y Bryn gynt). Cydymdeimlwn â hwy unwaith eto yn eu profedigaeth o golli eu brawd, Terry Alan, yn frawychus o sydyn.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â Marc a Karen, 3 Stad Bro Waun, yn eu profedigaeth hwythau o golli merch fach, Courtney, a annwyd ar yr wythfed ar hugain o fis Tachwedd eleni. Chwaer fach i Emma a Ben, ac wyres fach i David Parry, 4 Bro Waun, ac i Debra ac Andrew, Saron, Bethel.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Glory a John Roberts, Tŷ Hen. Collodd Glory ei thad, Derwyn Thomas, a oedd yn byw ym Mhatagonia.

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Jane Wood, Ysgoldy, ar ei phriodas ddiweddar ag Alex yn Ynys Cyprus. Bydd y ddau yn cartrefu yn Ysgoldy.

BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

DODREFN a LLORIAU PERKINS

SÊL Y GAEAF

Gwasanaeth Mesur a Ffitio

yn dechrau am 10 a.m.
Dydd Mawrth, Rhagfyr 29

2 Canolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn: (01286) 676040
Yn ogystal â dodrefn, cofiwch hefyd am ein dewis mawr o GARPEDI; LLENNI a LLORIAU PREN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

GWOBR ARBENNIG. Derbyniodd y Barch Nan Wyn Powell Davies (Tan-y-Fron) wobr Cymeradwyaeth Arbennig am fynd ymhell tu hwnt i'r gofyn wrth helpu i intigreiddio troseddwyr yn ôl i'r gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg, yn Noson Wobrwyo Gwirfoddoli a Chyfiawnder Cymunedol 2009. Mae'r wobr yn cydnabod gwaith ac ymroddiad eithriadol pobl sy'n gweithio i leihau trosedd a gwella ansawdd bywyd cymunedau lleol.

Nan Wyn yw cyd-gordiwr BARA, asiantaeth sy'n cefnogi ac ailsefydlu troseddwyr wedi iddynt gael eu rhyddhau o garchar yng ngogledd Cymru.

Yn ogystal â'i bod yn falch o dderbyn y wobr teimla Nan ei fod yn anrhydedd i'r eglwys hefyd. Llongyfarchiadau, Nan, ar dderbyn y wobr.

PLYGU'R ECO. Mae'n anodd credu ei bod yn amser i ni, ddarllenwyr yr Eco yn y Waun, ymgymryd â'r gwaith o blygu y rhifyn nesaf o'r Eco. Byddwn yn gwneud y gwaith yn festri Eglwys y Waun ar y dydd Iau olaf o fis Ionawr 2010, ac yn falch iawn o bob cymorth. Diolch.

CYFARCHION YR ŴYL. Dymunwn yn dda i ddarllenwyr yr Eco dros Ŵyl y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, ac anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai o'r pentref sydd mewn cartrefi preswyl a nyrsio.

Eisteddfod Bentref Waunfawr

Cynhaliwyd Eisteddfod Bentref Waunfawr eleni ar yr 21ain o Dachwedd. Cafwyd cystadlu brwd a safonol drwy gydol y dydd a rhaid llongyfarch pawb a gymrodd ran, boed hynny ar y llwyfan neu yn yr amrywiol gystadlaethau 'gwaith cartref'. Denodd cystadlaethau'r plant yn y prynhawn dyrfa deilwng iawn a chafwyd cystadlu brwd, llawn hwyl yn ystod y sesiwn hwyr hefyd rhwng Tîm Croes y Waun a Thîm y Post. Tîm y Post lwyddodd i gipio Tlws Pant Teg.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r canlynol am eu gwaith diflino - Eirlys Non Jones am feirniadu'r llefaru ac Elfed Morgan Morris am feirniadu'r cerdd. Llawer o ddiolch i feirniaid y 'gwaith cartref' - Norman ac Olwen Williams (Llên); Sioned Glyn (Celf a Ffotograffiaeth) a Rhiannon Roberts (Coginio). Diolch hefyd i arweinyddion y prynhawn a'r hwyr - Gwenan Williams, Sioned Parry, Norman Williams a John Gwynedd. Diolch arbennig i Gwenda Griffiths am gyfeilio drwy'r dydd ac i staff yr ysgol gynradd am eu gwaith caled yn hyfforddi'r plant.

Canlyniadau'r Nos

Moli'r Beirniaid: 1. Tîm Croes y Waun; 2. Tîm y Post

Llefaru Unigol - Uwchradd: 1. Erin Ynyr; 2. Mared Ynyr; 3. Mared Rhys. *Unawd Canu - Uwchradd:* 1. Marcd Rhys; 2. Erin Ynyr. *Llefaru Unigol – Agored:* 1. Alma Jones; 2 Meira Turner; 3. Iola Llew; 4. Olwen Williams. *Dawnsio – Uwchradd:* 1. Grŵp Lowri; 2. Perlau Waunfawr; 3. Grŵp Megan Enlli.

Llên: 1. Gwenllian Jones; 2. Marcd Ynyr; 3. Erin Ynyr.

Unawd Offerynnol – Uwchradd: 1. Gwenllian Jones; 2. Mared Ynyr; 3. Mared Rhys. *Darllen Heb ei Atalnodi:* 1. Irene Roberts; 2. Olwen Morgan; 3. Alun Ellis a Huw Ynyr. *Unawd Cerddorol – Agored:* 1. Alun Ellis; 2. Awel Glyn; 3. Ffion Haf a Doug Jones. *Ymgom – Uwchradd:* 1. Llywelyn a Meleri Lowe. *Unawd Offerynnol – Agored:* 1. Awel Glyn; 2. Iola Llew; 3. Catrin Meleri a Rob Jones. *Dawnsio – Agored:* 1. Tîm y Post; 2. Tîm Croes y Waun *Grŵp Cerddorol – Cynradd:* 1. Gwenllian Jones a Mared Rhys; 2. Grŵp y Post; 3. Elgan a Mared Rhys. *Deuawd, Triawd neu Bedwarawd:* 1. Tîm Croes y Waun; 2. Tîm y Post.

Arlunio ar y Pryd: 1. Delyth Gordon; 2. Iola Ynyr; 3. Doug Jones. *Darllen ar y Cyd:* 1. Tîm y Post; 2. Tîm Croes y Waun. *Emyn:* 1. (a chwpan Er Cof am Wmffra Jones) Jana; 2. Catrin Meleri; 3. Ffion Haf; 4. Delyth a Liz. *Sgets:* 1. Tîm Croes y Waun; 2. Tîm y Post. *Côr:* 1. Tîm y Post; 2. Tîm Croes y Waun.

Llinell Goll: 1. Alun (tîm y post); 2. Norman Williams; 3. Alun (tîm y post). *Llên – Uwchradd:* 1. Gwenllian Jones; 2. Mared Ynyr; 3. Erin Ynyr.

Ffotograffiaeth

Uwchradd: 1. Gwenllian Jones; 2. Tesni Davies; 3. Tesni Davies. *Agored:* 1. Sally Burns; 2. John Roberts; 3. Olwen Morgan a Sally Burns

Coginio

Bara Brith: 1. Carolyn Davies; 2. Olwen Morgan; 3. Irene Roberts. *Pate:* 1. Huw Ynyr; 2. Janet Greasley; 3. Irene Roberts. *Chutney:* 1. Huw Ynyr; 2. Delyth Roberts; 3. Olwen Morgan

Tîm Buddugol - Tîm y Post

Canlyniadau'r Pnawn

Llefaru Bl Derbyn: 1. Iago Pritchard; 2. Gruff Jones; 3. Mabon Roberts ac Osian Tomlinson. *Unawd Bl Derbyn:* 1. Iago Pritchard; 2. Llio McGee; 3. Gruff Jones *Llefaru Meithrin:* 1af Ianto Davies; 2. Alaw; 3. Cadi Mai

Unawd Meithrin: 1. Alaw; 2. Elain Tomlinson; 3. Ianto Davies. *Llefaru Bl 1:* 1. Beca Haf. *Unawd Bl 1:* 1. Poppy Burns; 2. Beca Haf; 3. Math Thomas a Tomos Williams. *Llefaru Bl 2:* 1. Tanwen Meadows; 2. Gwion Roberts. *Unawd Bl 2:* 1. Dylan Williams; 2. Meilir Parry; 3. Tanwen Meadows

Llefaru Bl 3 a 4: 1. Cai Morgan; 2. Mabon Pritchard; 3. Esyllt Roberts. *Unawd Bl 3 a 4:* 1. Mabon Pritchard; 2. Nel Glyn; 3. Gethin Tomlinson *Llefaru Bl 5 a 6:* 1. Tomos Siôn; 2. Tomos Morgan; 3. Enlli Pritchard a Dafydd Llwyd

Unawd Bl 5 a 6: 1. Nia Brown; 2. Enlli Pritchard; 3. Katie Dale.

Unawd Alaw Werin: 1. Guto Jones; 2. Esyllt Roberts; 3. Morgan Jones. *Cân Theatrig:* 1. Parti Gwion; 2. Parti Kushla

Unawd Piano hyd at fl 4: 1. Cai Morgan; 2. Esyllt Roberts; 3. Gethin Tomlinson. *Unawd Piano bl 5 a 6:* 1. Tomos Morgan; 2. Morgan Jones; 3. Elin Glyn

Parti Llefaru: 1. Parti Dafydd; 2. Parti Enlli *Unawd Offerynnol hyd at fl 4:* 1. Esyllt Roberts; 2. Megan Glyn; 3. Nel Glyn. *Unawd Offerynnol bl 5 a 6:* 1. Elin Glyn; 2. Huw Williams; 3. Mair Loxton

Grŵp Offerynnol: 1. Grŵp Huw; 2. Grŵp Amelia ac Esyllt. *Parti Dawnsio:* 1. Grŵp Pinc; 2. Grŵp Piws; 3. Y Glitters. *Grŵp Canu:* 1. Côr Ysgol Waunfawr

Arlunio

Meithrin: 1. Serenna Williams; 2. Cadi Mai; 3. Nel Gwilym *Derbyn:* 1. Mabon Roberts; 2. Gruff Jones; 3. Sam Woodward a Sam Parkinson. *Bl 1:* 1. Celt Rowlands; 2. Celine Jones; 3. Poppy Burns. *Bl 2:* 1. Sion Ifan; 2. Gwion Roberts; 3. Tanwen Meadows a Joshua Davidson. *Bl 3:* 1. Nel Jones; 2. Rhona Loxton; 3. Jac Jones. *Bl 4:* 1. Megan Parkinson; 2. Cai Morgan ac Alice Swatridge; 3. Carwyn Owen. *Bl 5:* 1. Elin Glyn; 2. Huw Williams; 3. Ioan Jones. *Bl 6:* 1. Tara Worbey; 2. Elen Margaret; 3. Tim Williams.

Coginio

Derbyn: 1. Mabon Roberts; 2. Iago Pritchard. *Bl 1:* 1. Poppy Burns a Beca Elan; 2. Beca Haf. *Bl 2:* 1. Gwion Roberts; 2. Iwan Llwyd; 3. Tanwen Meadows, Iolo Morris a Meilir Parry. *Bl 3:* 1. Esyllt Roberts; 2. Nel Glyn. *Bl 4:* 1. Cai Morgan; 2. Megan Glyn a Mabon Pritchard. *Bl 5:* 1. Tomos Morgan; 2. Aled Llwyd; 3. Tomos Parry, Tomos Sion, Jac Davies, Elin Glyn. *Bl 6:* 1. Enlli Pritchard; 2. Dafydd Llwyd a Gwion Lowe

Ffotograffiaeth

Derbyn: 1. Mabon Roberts. *Bl 1:* 1. Efa Medi; 2. Beca Haf. *Bl 2:* 1. Gwion Roberts; 2. Meilir Parry; 3. Iwan Llwyd. *Bl 3:* 1. Esyllt Roberts. *Bl 4:* 1. Cai Morgan. *Bl 5:* 1. Morgan Jones; 2. Tomos Parry; 3. Tomos Morgan, Tomos Siôn, Aled Llwyd. *Bl 6:* 1. Gwion Lowe; 2. Dafydd Llwyd; 3. Dafydd Llwyd

Gwaith Llên

Bl 3: 1. Gethin Tomlinson; 2. Nel Glyn; 3. Elan Jones. *Bl 4:* 1. Megan Parkinson; 2. Rhiannon Thomas; 3. Cai Morgan. *Bl 5:* 1. Tomos Morgan; 2. Tomos Parry a Tomos Siôn; 3. Huw Williams. *Bl 6:* 1. Enlli Pritchard; 2. Kushla Everitt Kingston; 3. Arian Sellers

Hywel Williams
Aelod Seneddol

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

neu ebost:**williamsgw@parliament.uk**

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

MENTERGARWCH.
Llongyfarchiadau i Huw a Iona Ceiriog, Erw Wen, am fuddsoddi mewn menter newydd, sef bragdy bach sy'n cyflogi pobl leol yn Llanrwst. Fel canlyniad roedd criw o hogia'r pentref yn medru blasu ffrwyth y 'winllan' yn Nhafarn Bryngwna un nos Wener gaeafol yng nghanol mis Tachwedd.

ACHOS DA. Diolch i lafur caled Sarah a Mark, Penlôn, mae'r elusen ar gyfer y sawl sydd wedi cael damwain i'r ymennydd – Headstart – wedi elwa o dros £800. Trefnwyd 'ceilidh' ganddynt yng Nghlwb Rygbi Caernarfon, gyda chawl Gwyddelig, bara soda a dawnsio traddodiadol i gerddoriaeth y band lleol 'Moongin'. Ymhlith adloniant y noson hefyd roedd dawnsio dwyreiniol gan Tamara, sy'n cynnal nosweithiau 'dawnsio bol' yng Nghanolfan y Capel bob nos Fercher. Hwyl a sbri i bawb, gan gynnwys cefnogaeth deilwng o Gaeathro.

AELODAETH.
Llongyfarchiadau i Ann Gash, Llanddona (Ann Hughes, Erw Wen gynt) ar gael ei derbyn yn aelod cyflawn o Eglwys Capel Mair (MC) ym Miwmares.

PEN-BLWYDD O BWYS.
Llongyfarchiadau i Mrs Nan Huws Roberts, Erw Wen, ar ei phen-blwydd arbennig yn 70 mlwydd oed.

OEDFAON Y CAPEL. Bydd croeso mawr i bawb fynychu'r oedfaon dros yr wŷl.

Sul, 20 Rhagfyr
11.00: Ysgol Sul
5.30: Gwasanaeth Nadoligaidd
Gwener, 25 Rhagfyr
10.00: Oedfa Gymun yr Ofalaeth, Capel y Cysegr, Bethel, gyda'r Gweinidog
3 Ionawr:
Dim oedfa nac Ysgol Sul
10 Ionawr
11.00: Ysgol Sul
2.00: Y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson (cyfarfod swyddogion i ddilyn)
17 Ionawr:
11.00: Ysgol Sul
24 Ionawr
11.00: Ysgol Sul
2.00 Parch Ronald Williams
31 Ionawr
11.00: Ysgol Sul

PARTI NADOLIG Y PLANT.
Bydd Parti Nadolig y Plant am 5.30 nos Lun, 21 Rhagfyr, yng Nghanolfan y Capel ar gyfer plant oed Ysgol Gynradd ac iau. Diolch i hap-chwaraewyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am gefnogi'r fenter hon.

CANU CAROLAU. Bydd carolau yn cael eu canu i gerddoriaeth Seindorf Iau Llanrug am 7.30 nos Fawrth, 22 Rhagfyr. Y bwriad yw canu ger y goeden Nadolig, ond pe bai'r tywydd yn anffafriol byddant yng Nghanolfan y Capel.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned y Waunfawr ar 2 Rhagfyr 2009 yn y Ganolfan, Waunfawr. Roedd y Cynghorydd Clive James yn bresennol.

Nid oedd gwybodaeth wedi'i dderbyn o Heddlu Gogledd Cymru ynglŷn ag enw a sut i gysylltu â'r heddlu cymunedol newydd.

Nid oedd y Grŵp Llwybrau wedi cyfarfod er mwyn ceisio trafod dulliau o annog mwy o ddefnydd o'r llwybrau cyhoeddus.

Cytunwyd i baratoi drafft o holiadur ar gyfer bob tŷ i asesu teimladau a barn am y defnydd o'r safle 'Gerddi Bach', Waunfawr yn y dyfodol.

Roedd y Cyngor yn gefnogol i'r cais cynllunio i adeiladu cyntedd o flaen 3/4 Tai Brynteg. Nid oedd gwybodaeth pellach ynglŷn â'r ceisiadau cynllunio rhwng Hen Gapel a Chaeathro Bach a'r estyniad arfaethedig i'r Garej.

Penderfynwyd tynnu sylw Cyngor Gwynedd at y problemau llifogydd o hyd ger Tyddyn Whisgin.

CARDIAU TRAWSBLANNU. Diolch i Feddygfa Bron Seiont, Hafan Iechyd, am dynnu fy sylw at bresenoldeb ffurflenni caniatad yn y Feddygfa. Es i yno eto – am y pumed tro – a gwelais nhw mewn 2 le – ar ôl archwilio'n fanwl. Yn ôl y llefarydd nid oes gawl ganddynt i hyrwyddo'r achos.

Gellir hefyd archwilio www.organdonation.nhs.uk. Gyda llaw, rwy'n cario cerdyn yn fy waled! Ydych chi?

CLWB Y MERCHED. Ar 26 Tachwedd, daeth nifer dda o aelodau ynghyd i noson o Addurniadau Nadolig yng nghwmni Carol o Gerddi Seiont, wyneb adnabyddus iawn ar raglen Clwb Garddio S4C erstalwm. Trwy ei hiwmor a'i harbenigedd yn y maes yma cawsom nifer o syniadau ar gyfer addurno potiau blodau fel rhoddion ar gyfer y Nadolig, ac aeth ati i ddangos i ni sut i greu addurniadau Nadolig tra gwahanol ar gyfer addurno'r bwrdd ac o gwmpas y tŷ. Roedd pawb yn gwrando ac yn astudio'r syniadau yn ddyfal iawn. Rhoddwyd un o'r addurniadau fel raffl ac fe'i henillwyd gan Rhiannon Roberts. Diolchodd Bethan Iwan, y Llywydd, yn gynnes iddi am noson greadigol iawn.

Llongyfarchwyd Heather Jones ar ddod yn nain i ŵyr bach o'r enw Siôn Rhys. Yn gyfrifol am y te roedd Marian Huws a Nan Huws Roberts.

Ar 27 Tachwedd cawsom hwyl a chwerthin iach wrth fwyta bwyd blasus dros ben yn y Black Boy. Estynnodd y Llywydd longyfarchiadau'r Clwb i Nan Huws Roberts ar ei phen-blwydd arbennig. Rhoddwyd y raffl gan Bethan Iwan ac fe'i henillwyd gan Mair Jones. Yn haeddiannol iawn, Gwenno Bebb enillodd gystadleuaeth y Llinell Goll.

FFAIR NADOLIG. Ar nos Iau, 3 Rhagfyr, cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus er budd Canolfan y Capel yn y gymuned. Diolch i bawb – y rhoddwyr, y stondinwyr, y gweithwyr, a'r plant brwdfrydig a hwyliog. Cafwyd elw o £268.14. Un o enillwyr y raffl 'pinc' oedd y rhifau 506-510. Gall yr enillydd hawlio'i wobr gan Marian Hughes, Tŷ Mawr

YMWELIAD CYNNAR SIÔN CORN

Hwb chwaraeon i Wynedd
CLYBIAU LLEOL YN ELWA

Mae 17 o glybiau a sefydliadau chwaraeon ledled Gwynedd wedi rhannu mwy na £13,000 o gefnogaeth ariannol Cist Gymunedol Sportlot Cyngor Gwynedd.

Bydd timau pêl-droed ieuenctid a chlybiau rygbi lleol yn elwa o arian Sportlot ynghyd â chlwb aero model, grwp trampolinio a chyllid ar gyfer sefydliad sy'n anelu at atal cryd cymalau.

Dywedodd David Lloyd-Williams, o Dîm Datblygu Chwaraeon Cyngor Gwynedd:

'Mae clybiau a sefydliadau chwaraeon lleol yn cynnig cyfleoedd gwych ar gyfer aelodau'r cyhoedd i gadw'n heini, i ddatblygu eu sgiliau chwaraeon a chwrdd â ffrindiau newydd. Rydym yn falch iawn fod cymaint o sefydliadau chwaraeon Gwynedd wedi elwa o rownd ddiweddaraf o arian Sportlot.

'Gall clybiau a sefydliadau chwaracon Gwynedd elwa ar grantiau o hyd at £1,000 trwy gronfa Sportlot, a byddem yn annog unrhyw grwp sydd â diddordeb mewn gwneud cais am arian i chi gysylltu â ni am fwy o wybodaeth.'

Mae grantiau Sportlot Cyngor Gwynedd yn cael eu hariannu gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

Llewod Llanrug - i helpu'r timau ieuenctid i ariannu cyrsiau ar gyfer hyfforddwyr. Bydd yr arian hefyd yn galluogi'r clwb i brynu pyst newydd ar gyfer yr adran dan 7 oed.

Adran Iau Clwb Pêl-droed Deiniolen - i ariannu cyfleuster llogi ac i brynu offer ar gyfer yr adran dan 12.

Dylai ceisiadau sydd am gael eu hystyried yn ystod rownd nesaf o gyllid gael eu cyflwyno erbyn dydd Llun 11 Ionawr, 2010. Bydd y ceisiadau yn cael eu hystyried mewn cyfarfod ar ddydd Llun, 1 Chwefror.

Mae ffurflenni cais ar gyfer Cist Gymunedol Sportlot ar gael gan Jane Eade, rhif ffôn (01758) 704010.

Am gyngor neu atebion ynglŷn â'r broses ymgeisio, cysylltwch ag Elwyn Jones, Swyddog Datblygu Chwaraeon ar (01758) 704067 neu David Lloyd-Williams, Swyddog Cynorthwyol Datblygu Chwaraeon ar (01758) 704057.

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

DYMUNIADAU GORAU am y Nadolig a'r flwyddyn Newydd i holl drigolion y pentref a'r ardal.

GWELLHAD. Dymunir gwellhad buan i bawb a fu'n wael yn ddiweddar, neu'n derbyn triniaeth ysbyty.

CYNGERDD NADOLIG. Cafwyd cyngerdd Nadoligaidd hynod lwyddiannus ar nos Sul, 6 Rhagfyr, yn Eglwys Crist Llandinorwig. Cymerwyd rhan gan nifer o artistiaid amrywiol, i'w gwneud yn noson arbennig iawn.

DIOLCH. Dymuna Olive Allen ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar ôl torri ei choes.

DYMUNA Iorwerth a Peri Evans, 5 Hafod Olau, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, ffrindiau a chymdogion.

DYMUNA Arwel ac Emma, 12 Stryd Caradog, ddiolch yn arw i bawb am y dymuniadau da, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth Deion. Diolch yn fawr.

DYMUNA Dilwen a Warren ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion buddiol, yr arian a'r cardiau a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab, Ben, brawd bach i Jacob.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL. Cynhaliwyd y Gymdeithas yn Nhŷ Elidir ar 23 Tachwedd, pryd y llywyddwyd gan y Parch John Pritchard. Cafwyd sgwrs gan Mr John Jones, Amlwch, am waith y Samariaid. Soniodd am waith y mudiad yn lleol trwy'r swyddfa ym Mharc Menai ym Mangor, lle mae gwirfoddolwyr y mudiad yn ateb galwadau ffôn oddi wrth bobl mewn pob math o argyfyngau. Gwnaed casgliad at waith y Samariaid.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. Dr Huw Tegid Roberts o Langefni oedd y siaradwr ym mis Tachwedd. Ffrwyth ei waith ymchwil i Ellis Roberts, Ellis Wyn o Wyrfai 1827-1895, oedd ei sgwrs.

Ganwyd Ellis Wyn yn Llwyn Gwalch, Llandwrog. Bu yn cynorthwyo ei dad ym Melin y teulu hyd nes yr oedd yn 23 mlwydd oed, pan ddigwyddodd damwain iddo, hyn a newidiodd gwrs ei fywyd. Mynychodd Ysgol Eben Fardd yng Nghlynnog a hyn oedd yr agoriad i'w yrfa fel Athro ac Offeiriad. Soniodd Huw Tegid am ei waith a'i gymwynasau mewn plwyfi, ac fel Canon yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Cyfieithodd y pedair Efengyl i'r Gymraeg ynghyd â rhai o Emynau mwyaf poblogaidd ein hoes.

Mawr oedd gwerthfawrogiad y Gymdeithas i Huw Tegid am iddo roi inni hanes un o gymwynaswyr y Cymry yn ei oes, a lle mae ei Emynau yn cael lle blaenllaw yn ein haddoliad ni heddiw.

Cynhaliwyd cinio Nadolig y Gymdeithas yng Nghlwb Golff Caernarfon. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ddydd Gŵyl Dewi Sant, 2010. Diolch i bawb sydd yn cefnogi'r Gymdeithas.

OCSIWN RHODDION. Cynhaliwyd Iocsiwn Rhoddion yn ddiweddar er budd Clwb Pêl-droed Ieuenctid Deiniolen. Hoffai'r Clwb ddiolch yn fawr i Dafydd a holl staff y 'Bull' am eu gwaith caled ar y noson ac i holl fusnesau a'r trigolion lleol a gyfrannodd at yr ocsiwn. Cafwyd noson hynod lwyddiannus a diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

MERCHED Y WAWR. Cychwynnwyd cyfarfod Tachwedd trwy ganu cân y mudiad ac fe groesawodd Brenda, y Llywydd, bawb oedd yno ac anfon ein cofion at y rhai hynny oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd gwaeledd.

Llongyfarchwyd Brenda a Liz, y ddwy wedi dod yn nain unwaith eto.

Gofynnwyd i'r aelodau a oedd diddordeb ganddynt i fynd i'r gystadleuaeth Bowlio Deg ym mis Ionawr a dangoswyd diddordeb mawr gan rai.

Croesawyd Mrs Eirlys Williams, Bethel, atom i ddangos i ni sut i wneud gwahanol ddanteithion at y Nadolig, a hyn yn tynnu dŵr o ddannedd pawb. Ar y diwedd aed ati i brofi'r bwyd ac roedd y brolio a'r llyfu ceg yn dweud y cyfan.

Bu dau dîm yn cystadlu yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol ac, er cael noson ddifyr iawn, ni fu llwyddiant. Er hyn carai yr aelodau longyfarch tîm Y Groeslon ar eu llwyddiant arbennig. Da iawn nhw!

Efallai, hefo tipyn go lew o astudio y gwelwn ni dîm Deiniolen yn dod i'r brig yn y dyfodol!

Cyn i'r rhifyn nesaf o'r Eco ddod o'r wasg bydd rhai o'r aelodau wedi bod yn mwynhau cinio Nadolig yng ngwesty'r Padarn Lake, Llanberis. Cawn beth o'r hanes yn rhifyn Ionawr.

Dymuna'r aelodau Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

NOSON LANSIO HUNANGOFIANT MALCOLM ALLEN. Cafwyd noson lwyddiannus yn ddiweddar yng Nghlwb Pêl-droed Caernarfon i lansio'r gyfrol arbennig hon. Roedd nifer o deulu, ffrindiau a chyfeillion Malcolm wedi dod ynghyd i glywed darlleniadau o'r llyfr ac i glywed gan Malcolm ei hun. Mae dylanwad y pentref a'i bobl yn cael ei amlygu drwy'r llyfr, ac wedi cyfrannu at lwyddiant Malcolm i gyrraedd yr uchelfannau o chwarae pêl-droed dros ei wlad a rhai o brif glybiau Lloegr. Yn sicr mae'n llyfr sydd yn werth ei ddarllen ac mi wnaiff anrheg Nadolig perffaith, hyd yn oed os nad ydych yn gefnogwyr brwd o bêl-droed. Mae'r pentref yn ymfalchio yn ei lwyddiant ac yn dymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

Stôf Draddodiadol neu FODERN
i gynhesu eich tŷ
CYSYLLTWCH Â
fflam .biz
JOHN HUGHES a'i FAB
IARD LO · Carmel · Gwynedd
01286 882160

Gwasanaeth Gwres a Plymio
safe
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

BYSUS RHIWLAS
Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan
(01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

ENILLWYR EISTEDDFOD DEINIOLEN

Plant Deiniolen yn cymryd rhan yn y Cyngerdd Nadolig yn Eglwys Crist Deiniolen, nos Sul Rhagfyr 6ed. Fe ddaru'r plant yma hefyd gymryd rhan yng Nghyngerdd Band Deiniolen yng Nghapel Ebeneser nos Fercher y 9fed o Ragfyr. Diolch i Lyndsay Vaughan Pleming ac Eleri Bean am eu hamser i'w dysgu ac i'r rhieni am eu cefnogaeth.

CANLYNIADAU EISTEDDFOD DEINIOLEN

CERDD

Ysgol Feithrin: 1. Gwenno, 2. Erin, 3. Siôn. *Dosbarth Meithrin:* 1. Elin Dafydd, 2. Siôn Elidir, 3. Rhun Iolen. *Dosbarth Derbyn:* 1. Osian, 2. Emma, 3. Dafydd. *Bl.1 a 2:* 1. Gwion; 2. Alis, 3. Gwion. *Bl.3 a 4:* 1. Beca, 2. Cian, 3. Anna. *Bl.5 a 6:* 1. Leanne.
DAN 12: Unawd Cerdd Dant: 1. Alex. *Alaw Werin:* 1. Alex. *Unawd Offerynnol:* 1. Monique, 2. Prys, 3. Cian. *Canu Emyn:* 1. Ella, 2. Gwion, 3. Alex. *Unawd Piano:* 1. Alex. *Parti Canu:* 1. Parti Triongl, 2. Parti Cofio, 3. Llyffantod.
DAN 16 oed: Unawd: 1. Caryl Angharad, 2. Stacey Williams. *Unawd Offerynnol:* 1. Gwenno Glyn, 2. Damien Parry.
DAN 21 oed: Unawd Cerdd Dant: 1. Alaw Tecwyn, 2. Meilyr Jones, 3. Caryl Angharad. *Unawd Alaw Werin:* 1. Meilyr Jones, 2. Alaw Tecwyn, 3. Caryl Angharad.
Ysgoloriaeth yr Eisteddfod: 1. Alaw Tecwyn a Gwyn Owen
Unawd Piano: 1. Gwenno Glyn. *Unawd Offerynnol:* 1. Daniel Ellis. *Unawd Agored:* 1. Meilyr Jones, 2. Caryl Angharad. *Parti Canu* Dim Llawn Llathen: 1. Y Cathod. *Deuawd Digri:* 1. Lyndsey ac Eleri. *Parti Canu/Côr:* 1. Munud Ola. Alaw Werin *Agored:* 1. Meilyr Jones. *Cyfansoddi Tôn:* 1. Arthur Whielding.
Tlws y Cerddor: 1. Lois Eifion, 2. Jams Griffith Coleman.

ADRODD

Ysgol Feithrin: 1. Gwenno, 2. Erin, 3. Siôn. *Dosbarth Meithrin:* 1. Elin Dafydd, 2. Siôn Elidir, 3. Alana. *Dosbarth Derbyn:* 1. Beca, 2. Dafydd, 3. Osian. *Bl.1 a 2:* 1. Gwion, 2. Alis, 3. Leon. *Bl.3 a 4:* 1. Cian, 2. Beca, 3. Glain. *Bl.5 a 6:* 1. Alex.
Parti Adrodd: 1. Jet Set, 2. Parti Prys. *Adrodd Agored:* 1. Alaw Tecwyn. *Sgets Agored:* 1. Lyndsey, Sian, Eleri a Sioned; 2. Daniel, Elliw, Prys a Damien. *Darllen ar y pryd:* 1. Elliw, 2. Sian a Liam, 3. Daniel. *Parti Adrodd:* 1. Dim Llawn Llathen.

ADRAN LENYDDOL

Dosbarth Meithrin: 1. Ahmed, 2. Catrin, 3. Cian. *Dosbarth Derbyn:* 1. Iestyn, 2. Scarlett, 3. Osian. *Bl.1:* 1. Neve, 2. Leon, 3. Sophie. *Bl.2:* 1. Amy ac Alis, 2. Leon a Jacob, 3. Elliw a Gwion. *Bl.3:* 1. Elin, 2. Glain, 3. Vicky. *Bl.4:* 1. Tia, 2. Bethan, 3. Chris. Bl.5: 1. Awel, 2. Glain, 3. Lisa a Kelly. *Bl.6:* 1. Prys, 2. Ynyr, 3. Cai. *Rhyddiaith dan 15 oed:* 1. Llio Elenid Owen, 2. Caryl Angharad, 3. Elenid Owen.
Medal Lenyddol dan 25: Medi Wilkinson.
Stori Fer: Rhiannon Williams; *Englyn:* Richard Ll. Jones; *Cyfansoddi barddoniaeth:* D. Emrys Williams; *Limerig:* John B. Jones; *Llinell Goll:* Geraint Hughes; *Hanes Lleol:* Jane Eirlys Williams; *Cyfansoddi Emyn:* Gareth V. Davies; *Creu Brawddeg:* Sion Wyn Evans;
Cystadleuaeth y Gadair: Richard Ll. Jones, Bethel.

ADRAN CELF A CHREFFT

Ysgol Feithrin: 1. Eiddon, 2. Erin, 3. Gwenno. *Dosbarth Meithrin:* 1. Shannon, 2. Eli, 3. Catrin. *Dosbarth Derbyn:* 1. Hannah, 2. Scarlett, 3. Anedd. *Bl.1:* 1. Sophie, 2. Lynwen, 3. Elliw. *Bl.2:* 1. Alis, 2. Gwion, 3. Tara. *Bl.3:* 1. Beca, 2. Ella, 3. Jack. *Bl.4:* 1. Gwydion, 2. Chloe, 3. Gwion. *Bl.5:* 1. Bethan, 2. Monique, 3. Shane.

GWAITH LLAW

Ysgol a Dosbarth Meithrin: 1. Elin Dafydd, 2. Gwenno, 3. Rhun Iolen. *Adran Babanod:* 1. Alis, 2. Gwion, 3. Elliw. *Bl.3 a 4:* 1. Beca, 2. Elin, 3. Cian. *Bl.5 a 6:* 1. Prys, 2. Alex. *Bl.7-13:* 1. Steffan Warner, 2. Catrin Ll. Gruffudd.

GWAITH COED, METEL, LLECHEN (Agored)

1. Elliw Hughes a Steffan Warner.

FFOTOGRAFFIAETH

Ysgol Gwaun Gynfi: 1. Gwion, 2. Beca, 3. Elliw. *Ysgol Uwchradd:* 1. Steffan Warner, 2. Damien Parry, 3. Liam Taylor. *Agored:* 1. Keith Jones, 2. Geraint Hughes, 3. Gwil Jones.

GWAU

Bl.3, 4, 5 a 6: 1. Ffion, 2. Annest, 3. Chloe. *Agored:* 1. Menna W. Jones, 2. Nan Owen a Gwen Griffith, 3. Margaret Evans a Diana Davies.

CROSIO

1. Margaret Evans.

GWNIO

Derbyn, 1 a 2: 1. Liam, 2. Elliw, 3. Tara a Lynwen. *Bl.3, 4, 5 a 6:* 1. Ffion, 2. Annest, 3. Glain ac Elin.

PWYTH CROES

1. Mona Parry.

COGINIO

Ysgol Feithrin, Derbyn, 1 a 2: 1. Elin Dafydd, 2. Alis, 3. Elin a Jacob. *Bl.3, 4, 5 a 6:* 1. Beca, 2. Elin, 3. Osian. *Ysgol Uwchradd:* 1. Damien Parry, 2. Catrin Llywelyn, 3. Elliw Hughes. *Agored:* 1. Yalmai Williams, 2. Mona Parry, 3. Gwen Griffith. *Dynion yn Unig:* 1. Colin Worth, 2. Glyn Llywelyn a Gwil Jones, 3. Tony Pleming.

Cwpan Bryn Du – yr ymgais orau yn adran gwnio a gwau: Mona Parry
Tlws Teulu Ceris – ymgais orau yn yr adran lleiaru dan 12: Cian Pleming.
Tlws Teulu Crud yr Awel – ymgais orau yn yr adran lenyddol: Prys Hughes.
Cwpan er cof am Mr a Mrs John Peris Roberts – ymgais orau yn yr adran gerdd dan 12: Beca Jones.
Cwpan Mr a Mrs Hefin Williams, Rhiwlas – ymgais orau yn yr adran gerdd dan 21: Meilyr Jones.
Cwpan Clwb Snwcer Deiniolen – ymgais orau yn yr adran gwaith coed a metel: Streffan Warner ac Elliw Hughes.
Cwpan er cof am Mr Eames – ymgais orau yn yr adran arlunio dan 12 oed: Gwydion Morris.



Cerdd y Gadair, Eisteddfod Deiniolen 2009
GOBAITH

Ddaw cynnwrf Oesoedd Canol
drwy y niwl â'n hyder 'nôl?
Ger y ffin oes gŵr â ffydd
mewn aelodaeth mân wledydd
o un ffydd, all lunio ffawd
i Gymru fod yn gymrawd?
Gweld ei lle fel gwlad, a'i llys
yn dŵr ar adeg dyrys.
A chŵyn fod Ewrop ar chwâl,
pwy heno wel llith Pennal?

Ymbil mae'n hil drwy ddagrau dolur
chwe chanrif maith, mor llaith yw'r llythyr.

Er ei ble, ar ôl chwe chant
ai myth, ai eicon methiant?

Ein cryfhau wna'i eiriau mewn oes gerwin,
a naws y gosber gysura'r werin;
i gaeth wŷr ail danio Gwytherin
a rhyddid i'r iaith ail gerdded Rhuthun.
A ddaw'r eco drwy'r ddrycin? – mae'n darian,
o'r Mab Darogan grym bwydo'r egin.

Y waedd o Sycharth heddiw, i'r di-lais
yw'r adlais sy'n edliw
na cheir lleng i gyrchu'r Llyw,
O Wales! Ble mae'r rhelyw?

Rhoi'r bardd uwchlaw safnau'r bedd
anogaeth o'i unigedd;
eiriau taer sy'n rhwygo'r tarth,
dod â'r swch dros dir Sycharth.

Ail-hadu tir caledi
yw'n hachos nawr, trwy'n chwys ni;
â'n gair, deffro'n Gymru gaeth
o lynu at olyniaeth
gwag o hanes sloganau;
ofer iaith ar garreg frau.
Dim ond iaith wal "Dal dy dir",
a ni'n ildio'n hucheldir.

Ynom mae profiad hynod,
eiliad yw rhwng byw a bod.
Yno'r cais i ryddhau'r caeth
i'w heulwen, creu bodolaeth.
Fel storom law daw'r awen
yno'n llif adfywia'n llên,
a geni'n hiaith drwy saith sill
waddol symbyla'r gweddill.

Uwch ein braw, awch i'n barhau,
rhoi ias a gydia'r oesau;
argoeli, rhannu'r golud
wna nwyd bardd, a newid byd.

Bu'r waedd ynom drwy rym ein barddoniaeth,
y gair arfog sy'n tanio'r gymdogaeth
i godi'r mur a gwadu'r ymyrraeth
i droi'n hofnau'n greigiau gwrogaeth.
I'n gwaddol rhoi'n bodolaeth – bywhau'n hoen,
mynnwn y boen dros fflam annibyniaeth.

MADRYN
(RICHARD LLWYD JONES, BETHEL)

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn y Gwynt,. Ffôn: 870740

YSGOL DOLBADARN

Noson Siopa Nadolig – Cynhaliwyd noson siopa Nadolig yn yr ysgol ar Dachwedd 28fed pan gafwyd cyfle i edrych ar gynnyrch rhai busnesau a siopau lleol a rhoi cychwyn ar y siopa Nadolig! Cafodd y plant ddisgo yn y neuadd tra roedd y rheini yn gwario!

Golchi dwylo – Bu Nyrs Nia Williams yn ymweld â phob dosbarth yn ei dro er mwyn sôn am bwysigrwydd golchi dwylo yn gywir. Roedd ganddi beiriant arbennig oedd yn dangos pa mor lân oedd ein dwylo a chafodd ambell un sioc ar ôl rhoi eu dwylo yn y peiriant arbennig! Diolch i Nyrs Nia am ei chyflwyniad.

Wythnos Gwrth-Fwlio – Cafwyd amrywiol weithgareddau i nodi wythnos gwrth-fwlio. Buom yn trafod y gwahanol deimladau sydd gennym, gan feddwl sut i ymateb i fwlio. Daeth Sarah Salisbury atom i siarad am fwlio a chawsom gyflwyniad karate a dysgu ambell i symudiad. Mi fyddwn ni gyd yn gwisgo'r belt du mewn dim o dro rŵan!

Plant mewn angen – Penderfynodd y Cyngor Ysgol y dylai pawb ddod i'r ysgol yn eu pyjamas i godi arian tuag at yr achos yma. Bu blwyddyn 6 yn gwerthu cacennau a diod i blant yr adran iau ac fe gasglwyd £215 tuag at Blant Mewn Angen. Da iawn chi blant!

Barti Ddu – Ddydd Mercher, Rhagfyr 2il, aeth plant yr adran iau i'r Rhyl i wylio y pantomeim Barti Ddu. Cafwyd diwrnod da yn llawn hwyl ac roedd nifer o'r plant wedi gwisgo i fyny fel môr-ladron. Bydd y babanod yn mynd i Theatr Seilo i wylio pantomeim gan fyfyrwyr Coleg Menai.

Ymweliad ag Ysgol Brynrefail – Mae plant blwyddyn 6 wedi cael cyfle i ymweld â Ysgol Brynrefail am y tro cyntaf ac wedi cael profi rhai o weithgareddau'r ysgol.

DIOLCHIADAU. Dymuna Falmai a'i phlant ddiolch o galon am y gofal ardderchog a roddwyd i'w gwr Gordon, gan Dr Robyn Parry, nyrsys y feddygfa, staff y dderbynfa, staff y fferyllfa Llanberis, nyrsys ardal cymunedol, staff Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd, a staff Ward Peblig, Ysbyty Eryri. Hoffent ddiolch hefyd i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth, i Jane a Gwynfor am eu trefniadau trylwyr ac i'w teulu a'u ffrindiau am eu cefnogaeth, am yr holl negeseuon a'r ymweliadau. Unwaith eto, diolch yn fawr iawn i chi gyd.

LLADRAD. Trist yw adrodd fod lladrad wedi cymryd lle yn y Feddygfa yn Llanberis.

Lladratwyd plwm gwerthfawr o do y Porth sydd yn arwain i gefn y Feddygfa yn ddiweddar gan rywun neu rywrai. Truan fod rhai yn goresgyn i'r fath stad ac yn dwyn o eiddo sydd yn rhoi gwasanaeth amhrisiadwy i drigolion y fro. Os oes gan unrhyw un wybodaeth am hyn a fuasech gystal â chysylltu â'r heddlu lleol.

CEUNANT

ADRE O'R YSBYTY. Pob dymuniad da i Evan Parry, Morwel, Ceunant, sydd wedi treulio amser yn yr ysbyty yn ddiweddar – brysiwch wella!

Cofiwch gefnogi ein hysbysebwyr

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ym mis Tachwedd a ddaeth Mrs Margaret Ll. Jones atom ar ôl dewis swyddogion. I ddiweddu'r noson cawsom amser difyr iawn hefo Carol, Cae Rhos, yn dweud ei hanes ac yn dangos ei gwaith gemwaith. Cafwyd cyfle i brynu anrhegion Nadolig.

Bydd ein cinio Nadolig ar 17 Rhagfyr yn y Padarn Lake, Llanberis.

YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD

ANRHEGION NADOLIG. Mae ein diolch yn arbennig eto eleni i bawb a gefnogodd Ymgyrch Plentyn Nadolig a pharatoi nifer sylweddol o flychau i'w hanfon dramor. Rydym yn ddyledus o flwyddyn i flwyddyn i Jennie Angharad Roberts am drefnu'r ymgyrch ar ein rhan mewn cydweithrediad â'r Parch John Pritchard.

OEDFAON hyd ddiwedd Ionawr 2010:

Rhagfyr 21 am 2.00:
Oedfa i ddathlu'r Nadolig dan nawdd yr Aelodau gyda lluniaeth yn dilyn wedi ei baratoi gan Caban.

Rhagfyr 28 am 2.00:
Mr Oswyn Evans, Penmaenmawr

Ionawr 3 am 5.30:
Oedfa Ddechrau Blwyddyn

Ionawr 10: Dim Oedfa

Ionawr 17 am 5.30:
Mr Glyn Owen, Llanwnda

Ionawr 24 am 2.00:
Parch Gwynfor Williams, Caernarfon.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Mae aelodau'r gangen leol wedi bod yn dod at ei gilydd yn rheolaidd dros fisoedd yr hydref yn y Caban a chafwyd amrywiaeth o gyfarfodydd a fwynhawyd gan bawb.

Yn eu plith cafwyd noson yng nghwmni Carole Grecke Williams o Feithrinfa Seiont, Pontrug. Dangoswyd i ni nifer dda o blanhigion ganddi a chyflwynodd syniadau buddiol ar sut i'w dewis a gofalu amdanynt.

Cafwyd noson hwyliog hefyd yng nghwmni Bobby Haines, yn adrodd hanes ei fywyd yn nhref Caernarfon.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ym mis Tachwedd dan arolygiaeth Margaret Lloyd Jones a diweddwyd y noson gyda Carol Williams yn arddangos gemwaith arbennig iawn.

H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444

★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff

• Priodasau • Dathliadau
• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
• Pwyllgorau • Bwydlen Bar
• Cinio Dydd Sul

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903

O SIAMBAR SELWYN

Roedd hi'n arferiad gan Eifionydd (Cofiadur cyntaf Gorsedd y Beirdd a Golygydd y Genhinen) gyhoeddi anerchiadau a draddodwyd gan yr Archdderwydd ar y Maes Llog yn y cylchgrawn. Roedd hyn yn dderbyniol iawn gan eisteddfodwyr, ac yn wir y mae rhai ohonynt yn ddiddorol i'w darllen heddiw.

Ar ddydd y Cyhoeddi yn unig y bydd yr Archdderwydd yn traddodi ei anerchiad, er bod yr hawl ganddo i annerch ar y bore Llun, os dymuna. Gan i mi eisoes gyhoeddi fy anerchiadau blaenorol yn yr Eco, manteisiaf (er braidd yn ddiweddar, ac ar gais rhai o aelodau'r Orsedd) i gyhoeddi yr anerchiad a draddodwyd o'r Maen Llog yng Nglyn Ebwy.
Efallai y bydd o ddiddordeb i rai ymhen blynyddoedd!

* * *

Dwi'n cofio cyfeirio yn seremoni cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch, mor bwysig ydi hi i'r Eisteddfod ymweld â gwahanol ardaloedd yn y gogledd, y canolbarth a'r de yn eu tro. A thrwy gydweithrediad Cymdeithas y Cynghorau Sir, mae'n bosib gwneud hynny bellach. Pa ardal bynnag sy'n cael y fraint o gynnig cartref i'r Eisteddfod - mae'r paratoi ar ei chyfer, y cydweithio a'r cymdeithasu yn creu brwdfrydedd, ac mae'r effaith a adewir ar ôl yr Eisteddfod yn creu diddordeb mewn iaith a diwylliant Cymraeg. A dyna amcan yr Eisteddfod: hybu, hyrwyddo a diogelu diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg, trwy gynnal Gŵyl Genedlaethol yn flynyddol, a'r iaith Gymraeg fydd iaith yr Eisteddfod honno.

Yn ystod blynyddoedd cynnar y ganrif hon mae'r Eisteddfod wedi sicrhau cartref mewn mannau diddorol yn hanesyddol a daearyddol: Dinbych, ar gyrion pentref Llandyrnog; Tyddewi am y tro cyntaf erioed; Meifod, ydach chi'n cofio'r cwestiwn 'Ble mae Meifod?'; Parc y Faenol, dyna i chi Eisteddfod gofiadwy; mynd ar y ffin (ond nid drosto) yn Sir y Fflint. Ac fe gawsom ymweld â thair dinas fwyaf y de, sef Casnewydd, Abertawe a Chaerdydd, y llynedd.

Ac ymhen y mis mi fyddwn ni yn hel ein pac ac yn heidio tua'r Bala dirion deg a hynny am yr eildro o fewn deuddeng mlynedd, ac mae yna ragolygon am Eisteddfod wych yno yng nghanol cefn gwlad Cymru. Llefydd amrywiol a diddorol pob un ohonyn nhw.

Mae yna ychydig dros hanner can mlynedd wedi mynd heibio ers pan fu'r Brifwyl yma yng Nglyn Ebwy. A 'Steddfod Glyn Ebwy oedd honno. Dim sôn am Gylch neu Gyffiniau na Blaenau ynghlwm â hi. Ond bellach, aeth y 'Steddfod yn rhy fawr i un dre neu ddinas fentro cymryd y cyfrifoldeb o'i chynnal. Felly rydan ni yma heddiw yn cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd.

Oedd, roedd Eisteddfod Glyn Ebwy 1958 yn Eisteddfod arbennig iawn. Dwi'n ei chofio hi fel Eisteddfod y 'ddau LEW', Llywelyn Jones, Llanbadarn, Aberystwyth, yn gwisgo'r Goron brynhawn Mawrth, a gŵr o'r enw Thomas Llywelyn Jones, Coed-y-Bryn, Llandysul, yn eistedd fel brenin ar ei Orsedd brynhawn Iau.

Ia, T. Llew Jones, neu T. Llew, ac fe gyflawnodd o yr un gamp yng Nghaernarfon y flwyddyn ddilynol hefyd. Ond yma yng Nglyn Ebwy yn 1958 y daeth T. Llew Jones yn ffigwr cenedlaethol am y tro cyntaf – yma y daeth o i sylw'r genedl.
Ers rhai blynyddoedd bellach, fe benodir Bardd Plant Cymru, a syniad ardderchog ydi o. Mae o'n gyfle gwych i'r beirdd gael teithio i bob rhan o Gymru, ymweld â gwahanol ysgolion a chael y fraint o gydweithio â'r plant, a'u harwain a'u symbylu nhw i ymarfer ac i feithrin eu doniau creadigol. Cael y cyfle i droi i fyd cyfrin plentyn. Gwyn eich byd!
Onid R. Williams Parry ddywedodd, 'Gwyn fyd y bardd na roes heibio pan aeth yn ŵr, lefaru a deall a meddwl fel plentyn.' Fo ddywedodd hefyd: 'Creadur twp, hanner pan ydi bardd, un mewn oed hefo meddwl plentyn.' Ond y Meuryn, y Prifardd Gerallt Lloyd Owen, sy'n cael y deg marc am ddweud y cyfan mewn cwpled cofiadwy yn awdl 'Yr Afon':

'Pan feddwn dalent plentyn
I weld llais a chlywed llun.'

Dwi'n siŵr fod pob un a gafodd y fraint o fod yn Fardd Plant Cymru am flwyddyn yn barod iawn i gydnabod mai gwir Brifardd Plant Cymru oedd y diweddar T. Llew Jones. Fo hefyd, yn sicr, oedd Prif Lenor Plant Cymru. Mae cenedlaethau o blant wedi cael y pleser o ddarllen ei lyfrau ac o adrodd ei gerddi, ac mi fydd cenedlaethau'r dyfodol yn dal i gael yr un mwynhad o ddarllen ei waith. Mi grwydrodd ledled Cymru i gyflwyno ei brofiadau, ac i symbylu cenedlaethau o blant, ac roedd 'na groeso mawr iddo ymhob ysgol. Roedd 'na rywbeth yn hudolus yn ei lais o – llais addfwyn a chynnes a denai wrandawiad. Roedd o yn 'Gyfarwydd' ac yn arbenigwr ar gyflwyno stori. Roedd T. Llew yn arwr i blant Cymru.

A fy nheimlad i ydi ei bod hi'n ddyletswydd arnom ni i'w goffau oddi ar y Maes Llog y prynhawn 'ma yn y dre ble daeth o i amlygrwydd y genedl am y tro cyntaf trwy ennill y Gadair yma yn 1958. Dwi'n berffaith sicr hefyd y byddai ei gyfaill mynwesol, Yr Archdderwydd Dic yr Hendre, yn llwyr gytuno hefo fi.

Ga' i wrth gloi dalu teyrnged i'r ddiweddar Eluned Phillips, a fu farw tua'r un adeg â T. Llew Jones - Y Prifardd Eluned Teifi. Fu gan yr Orsedd erioed aelod mwy ffyddlon na Luned. Roedd hi'n gorymdeithio gyda ni yn flynyddol, gan gynnwys y llynedd yng Nghaerdydd a hithau dros ei naw deg mlwydd oed. Bu Luned hefyd yn aelod ffyddlon o Fwrdd yr Orsedd am flynyddoedd.

A ninnau ar fin cychwyn tua'r Bala, ble enillodd ei choron Genedlaethol gyntaf yn 1967, cofiwn amdani. Diolch T. Llew a diolch Luned am eich gwasanaeth i'r Orsedd a'r Eisteddfod.

TYMOR PRYSUR I RHEILFFORDD LLYN PADARN

Bu 2009 yn dymor prysur iawn i Reilffordd Llyn Padarn. Mae'r cwmni yn falch o gael cydnabod y tymor prysuraf ers 1990, a braf yw gweld hyn o ystyried y dynfa ariannol. Bu'r trên bach llyn yn brysur yn cario pobl o bob rhan o'r byd ar hyd Llyn Padarn, gan gario dros 80,000 o deithwyr o fis Chwefror i ddiwedd Hydref.

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau gwahanol yn ystod y flwyddyn, megis Yr Helfa Wyau Pasg, Picnic Tedi ac, yn newydd ar gyfer 2009, Helfa Calan Gaeaf.

Wrth gwrs, yn ystod y penwythnosau sydd i ddod cyn y Nadolig bydd Siôn Corn yn ymweld â'r rheilffordd gyda phresantau lu i'r plant. Mae trenau Siôn Corn eisoes yn llawn ar gyfer eleni, ond mae Siôn Corn yn galw eto yn 2010 a bydd hi'n bosib archebu ticedi o Fis Medi.

Hoffai'r cwmni ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi eu cefnogi yn ystod y flwyddyn ac os am ragor o wybodaeth am y rheilffordd, y siop neu'r caffi, yna cysylltwch gyda David Jones neu Osian Tomos ar 01286 870 549.

Nadolig Llawen a Blwyddyn newydd dda i holl ddarllenwyr yr Eco oddi wrth Rheilffordd Llyn Padarn.

GERAINT OWEN
CARPEDI
CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd
(01286)650552 Mob. 07712779475

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn
Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon
54 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870088
SWIGOD A SEBON
GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch

YSGOL BRYNREFAIL

Pen-cogydd 'Wythnos Ni!'

Yn ystod wythnos 14eg - 20fed Tachwedd eleni roedd 'Wythnos Ni' yn cael ei chynnal, sef wythnos Plant o Bobl Ifainc Gwynedd. Un o'r cystadlaethau oedd coginio i bobl ifanc 14-19 oed . Fel gwobr roedd bwyty Plas Bodegroes, ger Pwllheli, yn cynnig wythnos o brofiad gwaith.

Bu'n rhaid i'r cystadleuwyr ddyfeisio bwydlen yn hyrwyddo cynnyrch lleol. Y rhai lwcus i gael eu dewis o Ysgol Brynrefail oedd Ilid Jones, Siôn Evans ac Anya Price. Gwahoddwyd hwy i'r rownd derfynol yng Ngholeg Menai i goginio un eitem o'u bwydlen. Ond, un oedd ar y brig, sef Ilid Jones, gyda Anya a Siôn yn agos iawn iddi.

Ilid yn dangos ei phryd buddugol.

Llongyfarchiadau, Ilyd, a phawb arall a ymdrechodd yn y gystadleuaeth.

Ilid, Siôn ac Anya o Flwyddyn 10 gyda, gweddill y cystadleuwyr.

TÎM PÊL-RWYD BLWYDDYN 7

Mae genod pêl-rwyd Blwyddyn 7 wedi dechrau chwarae gemau a hynny yn foddhaol iawn. Yn eu gemau cyntaf yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen bu'r gemau yn agos dros ben, gyda'r ddau dîm yn gyfartal tan yr eiliadau olaf. Yn anffodus colli wnaeth tîm A o 8–7 a tîm B o 2–0. Cafwyd gemau cyffrous iawn yn erbyn Ysgol Caergybi gyda chwarae cystadleuol dros ben. Rhagorodd tîm B drwy'r gêm a churo 6–1. Roedd tîm A ar ei hôl hi o 3 i 1 ar yr hanner ond, gyda chwarae medrus a phenderfynol, daethant yn ôl a churo'r gêm o 7 i 4.

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

PROFEDIGAETH. Yr ydym fel ardal yn anfon ein cydymdeimlad llwyraf at Nancy a Rita, ar golli ei mam, sef y ddiweddar, erbyn hyn, Mrs Laura Williams, Tan y Fron gynt ond a oedd, ers rhai misoedd bellach, wedi cartrefu ym Mhlas Garnedd, Llanberis. Bu Mrs Williams farw yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ar ddydd Sul, 29 Tachwedd yng nghwmni ei merch, Rita. Pe buasai wedi byw tan 29 Chwefror, buasai yn 90 mlwydd oed.

Nancy a Rita a'r teuluoedd oll, gobeithio y cewch nerth oddi uchod i ddal y golled fawr yma o golli mam a nain annwyl iawn, y golled fwyaf a ddaw i'ch rhan, ond mae gennych gydwybod tawel gan ichwi roi bob gofal a chariad iddi yn ystod y blynyddoedd a fu. Pob bendith arnoch fel teulu.

CLWB ORWIG. Dathlodd aelodau y clwb nawfed pen-blwydd y clwb yn ddiweddar trwy fynd ar daith ar y trên o Rhyd-ddu i Feddgelert, ac yna mwynhau cinio ardderchog yng Nghaffi Gwynant. Yn y cyfarfod diwethaf dangosodd John Cantrell ffilm a dynnodd o'r daith honno. Rhoddwyd y te gan Mrs Rose Cantrell. Cyfrannodd yr aelodau £48.50 tuag at yr Ambiwlans Awyr i goffau priod Mrs Hoyle a fu farw'n ddiweddar. Yr oedd yr aelodau yn hynod o falch a diolchgar o dderbyn £100 oddi wrth Gyngor Cymuned Llanddeiniolen a £100 oddi wrth Glwb Bingo Elidir, Deiniolen. Defnyddir rhan o'r arian tuag ar ofalu am y Gofeb i'r Chwarelwyr a'r tir o'i chwmpas.

TYMOR Y NADOLIG. A'r Nadolig bron wrth y drws unwaith eto, lle tybed aeth y flwyddyn mor sydyn? Yr ydym yn anfon cyfarchion yr ŵyl, a hefyd ein cofion anwylaf, at Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir gynt, ond sydd yn awr yn cartrefu yng Nghartref Plas Pen Gwaith, Llanberis. Gobeithio y cewch chwi Nadolig Llawen.

Hefyd anfonwn ein cyfarchion Nadolig at bawb yn yr ardal a gobeithio y bydd i bawb fwynhau yr ŵyl, ac y bu i Santa gofio am y plant sydd yn dyheu am y Nadolig, ac yn ci wcld yn hir yn dod.

Nadolig Llawen i Bawb.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

FFRAMIA

Parc Padarn, Llanberis

(01286) 870922

www.fframia.com

www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan

William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Ar Ben Arall y Lein

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GYMDEITHAS, 2009

Mae tymor arall yn dirwyn i ben, gyda'r 'sgota yn gymharol dawel ar hyn o bryd, ond mae'r estyniad i'r tymor o'n blaen wrth i mi ysgrifennu. Ond blwyddyn oedd hon y byddwn yn ei chofio am resymau ar wahân i nifer y pysgod a ddalwyd.

Eleni eto, roedd mantell wen o eira dros y dyffryn ar ddechrau'r tymor ar yr afonydd a'r oerni yn amharu ar y dal; er bod brithyll tlws wedi dod i law wrth iddi hi gynhesu. Erbyn i'r llynnoedd agor roedd gwanwyn wedi cyrraedd a bu pysgota da ar Lyn Cwellyn, ac yn arbennig ar Llyn Nantlle, a'r llwyddiant yma yn ymestyn ymlaen drwy fisoedd yr haf. Eto roedd 'sgota brwd ar Lyn Dywarchen o ddechrau'r tymor yn diddanu'n aelodau a nifer o ymwelwyr.

Erbyn mis Gorffennaf roedd sewin yn ymddangos yn rhai o byllau'r Afon Llyfni a chafwyd digon o ddŵr i ddenu mwy o'r môr ar bob lli. Roedd y 'sgota nos yn boblogaidd eto a sewin bras wedi eu dal, ond bod y niferoedd efallai yn llai nac yn ystod 2008. Unwaith eto, mae'n bleser cael adrodd bod aelodau'n dal eog a sewin yn Afon Gwyrfai. Efallai bod mwy o 'sgota wedi bod ar ei glannau wedi'r straeon am lwyddiant y llynedd.

A'r Afon Seiont? Mae'n rhaid sôn yn gyntaf am y sewin anferth a ddaliwyd gan Hefin Huws ar ddŵr mawr ar ddiwedd Awst, a'i longyfarch ar y gamp. Yn pwyso un pwys ar bymtheg a deg owns, ac yn wyth mlwydd oed, wedi claddu bum gwaith. Dyma'r sewin mwyaf mae'r aelodau'n ei gofio'n dod o'r afon.

Cafwyd ambell eog yn ystod y cyfnod hefyd ond erbyn mis Medi roedd y glaw hollbwysig wedi arafu a bu ha' bach Mihangel yn crasu'r glannau am wythnosau hir. Mae'r sychder wedi ymestyn hyd canol mis Hydref ac yn siom i bawb oedd yn edrych ymlaen at geisio hudo eog neu ddau o'r lli. Mae llawer o'r aelodau heb fynd at lan yr afon yn ystod yr wythnosau diwytha, ein cyfnod mwyaf prysur fel arfer. Ond, er gwaetha'r siom, mae pysgotwyr wedi derbyn erioed bod llwyddiant hefo'r enwair yn ddibynnol ar sawl ffactor. Mae tipyn o lwc yn help, a bod yn y man iawn pan ddaw'r pysgod, ond mae'r dyfroedd dan ddylanwad ffactorau naturiol fel y tymhorau ac yn arbennig y tywydd, sydd tu hwnt i'n rheolaeth. Mae pysgotwyr profiadol, yn eu doethineb, yn derbyn tymor sâl. Gyda lwc, bydd tymhorau gwell i ddod. Ond dydi'n aelodau sydd yn byw ac yn bod ar lan yr afon, ddim yn wirion, ac er gwaetha'r ffordd y bu'r awdurdodau yn ceisio sicrhau'r cyhoedd fod yr hyn a welwyd yn Llanberis yn ystod yr haf yn rhywbeth naturiol rydym yn gwybod nad natur, ond difaterwch a blerwch, sydd wedi achosi'r bygythiad mwyaf erioed i'n pysgodfeydd.

Roedd Llyn Padarn wedi ei lygru yn ystod y nawdegau. Mae gwaith carthffosiaeth Llanberis - fel pob gwaith tebyg yn y wlad -yn trin ein carthion yn ôl y gofynion, a'r gweddillion wedi'r driniaeth yn cael ei arllwys i'r llyn. Bymtheng mlynedd yn ôl, pan welwyd yr algae am y tro cyntaf, dangoswyd mai ffosfad ar lefel uwch nac a'i ganiateir yn y gweddillion yma oedd yn llygru'r llyn. Fe osodwyd offer tynnu ffosffad yn Llanberis er mwyn rhoi diwedd ar y broblem.

Mae'r Gymdeithas wedi bod yn wyliadwrus ac, ar ddiwedd y nawdegau, dangosodd astudiaeth pellach fod ecoleg y llyn yn awgrymu bod ffosfad yn dal i'w lygru. Rydym ni fel swyddogion y clwb wedi mynegi ein pryder dro ar ôl tro dros y blynyddoedd. Ar ddechrau 2009 eto roedd yn rhaid tynnu sylw Asiantaeth yr Amgylchedd at ein pryderon am safon y dŵr yng nghyffiniau gwaith carthffosiaeth Llanberis,ond doedd dim cydnabyddiaeth bod unrhyw broblem. Yn ystod y gwanwyn fe wnaethom gais eto am wybodaeth ynglŷn â chynnwys yr hylif oedd yn mynd i'r llyn, a chawsom ein sicrhau y buasai'r ffigyrau ar gael i ni cyn hir ond, er ail geisio, ni ddaeth y wybodaeth. Cyrhaeddodd gwres yr haf a'i dyddiau hir ac fe ddaeth yr algae gwyrdd-las i flodeuo'n ddyddiol. Er gwaetha golwg y llyn, a'r ffaith bod y broblem bellach yn weledol i bawb, roedd yr Asiantaeth yn parhau i wadu bod unrhyw beth o'i le ac mai rhyfeddod naturiol oedd yr algae. Er bod dŵr pob llyn mynydd arall ym mhob dyffryn o'n cwmpas yn glir fel grisial pob haf ers cyn cof. Erbyn hyn roedd y Gymdeithas wedi cael cymorth cyfreithiol gan Fish Legal a phan wnaeth y corff yma ddatganiad i'r wasg ym mis Gorffennaf fe newidiodd y stori.

Ar Ddydd Llun roedd y *Daily Post* yn adrodd bod yr Asiantaeth yn mynnu mai rhywbeth naturiol oedd yr algae ond, yn dilyn datganiad Fish Legal, roedd *Daily Post* y dydd Mercher yn dweud fod yr Asiantaeth bellach yn 'cyfaddef' bod ffosffad yn llygru'r llyn ac yn debygol o fod yn gyfrifol am yr algae. Yn ôl Fish Legal, ymddengys bod dwy o'r dair peipen sydd yn gwagio i'r llyn ddim yn cael eu monitro o gwbl, ac ar brydiau yn osgoi'r offer tynnu ffosffad. Llygredd parhaol, efallai, dros gyfnod o flynyddoedd. Blynyddoedd sydd wedi cyd-fynd â lleihad yn nifer y sewin, diflaniad yr eog yn yn yr haf ac, wrth gwrs, mae'r torgoch, rhan o'n hetifeddiaeth unigryw yn yr ardal, yn cael eu difa o flaen ein llygaid.

Petai rhywbeth tebyg yn bygwth Gwalch y Môr yn Nhremadog, neu hyd yn oed gwiwerod coch ar Ynys Môn, tybiwn na fuasai diwedd ar y stori. A beth fuasai wedi digwydd oni bai bod criw o bysgotwyr wedi mynnu tynnu sylw at y mater? Mewn ardal sydd yn dibynnu cymaint ar ymwelwyr yn mwynhau ei harddwch a'i glendid naturiol - a glywsoch chi unrhyw sôn gan yr awdurdod lleol, neu fudiadau twristiaeth, neu hamdden ac awyr agored, neu unrhyw gorff arall o gwbl yn ardal Llanberis am y llygredd dros y blynyddoedd? Mae lle i ddiolch i Alun Ffred Jones, sydd wedi ein cefnogi a hefyd i Fish Legal, a gobeithiwn y bydd cyfraith gwlad yn arwain at unioni'r cam.

Oes unrhyw newyddion mwy gobeithiol? Wedi blynyddoedd hir, mae ailgodi Melin y Cim ym Mhontllyfni wedi ei gwblhau. Prynwyd yr adeilad gan y Gymdeithas rai blynyddoedd yn ôl, ac mae'r gwaith atgyweirio ac adnewyddu wedi cymeryd dipyn mwy o amser na'r disgwyl am sawl rheswm, ond bellach mae'n cynnig llety gwyliau heb ei ail ac wedi bod yn llawn o'r wythnos gyntaf y daeth ar gael ar ddechrau'r haf. I lawer aelod sydd yn anghyfarwydd efo gwaith y pwyllgor a'r clwb mae wedi bod yn anodd deall ar brydiau beth oedd pwysigrwydd y cynllun. Bellach,mae'r weledigaeth wreiddiol yn dwyn ffrwyth. Wrth osod y Felin mae'r Gymdeithas yn sicrhau ffynhonnell newydd o incwm a fydd ar wahân i'n prif incwm, sydd yn ddibynnol ar werthiant tocynnau. Mae costau ynghlwm yn y gwaith, a dyledion eraill yn faich ar y clwb yn dilyn ein pryniant o'n dyfroedd a'n hawliau dros y blynyddoedd ond mae Melin y Cim yn ased parhaus sydd hefyd yn dechrau lleihau ein dibyniaeth ar dâl aelodaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith trefnu sydd wedi bod yn gymhleth a diflas wedi ei ysgwyddo gan ein ysgrifennydd, a oedd yn dal i gredu er gwaetha'r anawsterau a wynebodd. Rydym yn ddiolchgar iawn iddo, yn ogystal ac i bawb arall a gyfrannodd eu hamser a'u hymdrech ar hyd y ffordd. Bu llawer o waith ym misoedd cyntaf y gosod hefyd gyda mynd a dŵad di-ddiwedd, nid yn unig gan rai o'r swyddogion ond hefyd y gwragedd, ac mae ein diolch hefyd i'r criw gweithgar yma. Mae ein dyfodol fel Cymdeithas tipyn mwy sicr yn sgil llwyddiant y fentr yma, sydd yn beth braf i'w adrodd wrth gloi adroddiad blynyddol digon cymysg ei chynnwys.

Diolchaf ar eich rhan i bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, y trysorydd, y cyfarwyddwyr ac aelodau'r pwyllgor, yn ogystal â'r rhai sydd yn weithgar tu ôl i'r llenni yn clirio a chynnal y glannau a'r cychod ac yn trefnu tocynnau i'r siopau. Diolch i'r ddau unigolyn sydd wedi cynnal ein gwefannau. Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ddiwedd y flwyddyn i'r ysgrifennydd am ei waith yn 2009.

Ar ran y Pwyllgor a'r swyddogion hoffwn gynnig y dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a phob hwyl gyda'r enwair yn 2010.

ROBIN PARRY

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth bawb yn siop

LONDIS

FFORDD YR ORSAF
LLANRUG

LONDIS

Ffôn:**672937**

Y gwerth gorau'n lleol

- Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
- Dewis da o fwyd a diod i ddathlu'r Wyl o ben bore tan yn hwyr y nos!

CHWARAEON

CRACAR O GÊM

Beth ydy o am dimau Llanberis dros y blynyddoedd pan y mae tlws pêl-droed i'w hennill? Mewn tymor siomedig hyd yn hyn, ble llwyddwyd i ennill un gêm gynghrair yn unig, mae'r tîm ifanc yma wedi cyrraedd yr 16 olaf yn Nhlws F.A. Cymru. Ac am sgalp!! Ar gae trwm drybeilig y gwrthwynebwyr oedd ceffylau blaen cynghrair y Welsh Alliance, Rhydymwyn – ffefrynnau am y Tlws yn ôl rhai. Tîm corfforol iawn yw Rhydymwyn, gyda record gref o beidio ildio goliau. Aethant ddwy gôl ar y blaen ond yna daeth greddf cynhenid Llanber i'r adwy. Buasai sôn am y gic gosb i unioni'r sgôr yn yr eiliadau olaf yn wych am *'What happened next?'* Diolch fyth na allai'r dyfarnwr fethu'r llawio yma! Sgoriodd Dafydd Hughes. Yna llwyddwyd i gadw'i pennau- a'u traed - a chyda dwy arbediad Darren Owen yn y gôl, profodd cic gosb Dafydd Jones yn ddigon i danio'r dorf. Erbyn i chwi ddarllen y llith yma bydd Llanber yn gwybod pwy fydd eu gwrthwynebwyr ym mis Chwefror. Gobeithio y cawsant gêm gartref.

Yr unig gwpan genedlaethol i ddod i Ffordd Padarn oedd cwpan Pantyfedwen yr Urdd sawl tymor yn ôl. Buasai rhai o'r garfan gyfredol wedi bod yn ddigon ifanc i chwarae yn y tîm hwnnw. Ydy hanes am ail adrodd ei hunan. Llongyfarchiadau a phob lwc i Euron Davies a'i garfan.

CHWIFIO'R FANER

Ddechrau'r mis, mewn cyfarfod yn y Bedol, gwireddwyd breuddwyd rhai pan sefydlwyd cangen o gefnogwyr Abertawe - y 'Swans' - sef Jacs y Gogledd. Roedd cymysgedd o acenion i'w clywed a'r brwdfrydedd amlwg dros y clwb yn amlwg. O'r fagwraeth ar derasau cyntefig y Vetch hyd at foethusrwydd y Liberty roedd y storiau, yr atgofion a'r dadansoddi yn llifo.

Cnewyllyn y garfan yw'r criw o Gwmtawe sydd wedi ymgartrefu ym Mro'r Eco ers sawl blwyddyn bellach. Ar y noson roedd yr ysgrifennydd etholedig yn gallu cyhoeddi fod tua 40 o gefnogwyr o fewn cylch o 10 milltir o Gaernarfon. Sail gadarn ar y dechrau felly. Ymfalchio hefyd o gael y blaen ar yr hen elyn traddodiadol – Cardiff City – ar ac oddi ar y maes! I niwtral braf fuasai gweld y ddau dîm yn esgyn i'r Brif Adran – tanio'r ddraig go iawn.

Ar fur y Bedol roedd y faner fawr yn cyhwfan, wedi ei chynhyrchu gan gwmni Shwl-di-Mwl. Cafodd y faner cryn sylw cyfryngol yn y gemau eisoes. Y gobaith yw bod y faner yn denu mwy at yr achos.

Tu ôl i'r sefydlu mae elfen gymdeithasol gref. Fel pob carfan mae trafod timau, trosglwyddiadau, gemau - a phenderfyniadau amheus – yn rhan naturiol pan ddaw cefnogwyr at ei gilydd. I'r perwyl yma, bydd y cyfarfod nesaf yn y Bedol - nos Fercher, Ionawr 13 am 7.30pm.

Bwriad arall y gangen yw lledaenu'r defnydd o'r Gymraeg wrth drafod ac yn eu cyfraniadau i fywyd y clwb, gan gynnwys rhaglenni y gemau. Gallwch ymuno yn y trafod a'r tynnu coes drwy ymweld â safle Jacs y Gogledd ar Facebook.

Yn naturiol, prif bwrpas y gangen yw cefnogi'r Swans. I'r perwyl yma bwriedir trefnu bws draw i Sheffield Wednesday ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 19. Os oes gennych ddiddordeb gellir cael mwy o fanylion gan un o'r swyddogion.

Cadeirydd: **Geraint George (Brynrefail) 01286 872306**
Ysgrifennydd: **Russell Williams (Llanfairpwll, ex-Bethel) 07894070370**
Trysorydd: **Rhys Harris (Bethel)**
Rheolwr J.Y.G. ar Facebook: **Meilyr Emrys (Bethel)**

Noson hwyliog fu'r noson agoriadol, a chroeso i chwi ymuno. Y nod – gweld y faner yn cyhwfan yn Old Trafford , Anfield. Onid braf fuasai cyhoeddi, 'Roeddwn i yno.'

Yn y Cog mae anogaeth
– i'r rhelyw
roi'r Elyrch gefnogaeth.
Cael hyder, o'r faner faeth
i'w gôl o fuddugoliaeth.

ANRHEGION CHWARAEON Y NADOLIG

I F.I.F.A. - rhoddi caniatad i ddefnyddio tystiolaeth technoleg ar y lefel uchaf.
I Warren Gatland – cael Gavin Henson yn ôl.
I Rafael Benitez – hen fideos o gyn-dimau Lerpwl i'w atgoffa o'r math o bêl-droed a ddisgwylir yn Anfield.
I Wrecsam – yr un gyrrwr bws i'w gyrru i'r un meysydd am dymhorau i ddod!
I'r Sgarlets – map o'r gogledd i'w hatgoffa ein bod yn rhan o'r 'rhanbarth'.
I Brian Flynn – diolch mawr am gynnal fflam gobaith.
I John Toshack – perl fawr i'w atgoffa fod system y 'diamond' yn siwtio tîm Cymru.
I Lanberis – Tlws yr F.A. Dyma beth fuasai llwyddiant.
I Lanrug – cysondeb, i weld os allwn gael dyrchafiad i un o glybiau'r fro.
Hot Dog a nionod fawr i holl wirfoddolwyr Llanrug a Deiniolen a greodd, gyda'r plant, gystadleuaeth Tlws yr Eco 2009 - yr orau eto.
I bawb sy'n cynnal ystod eang o chwaraeon yn yr ardal yma, llawer o ddiolch a Nadolig Llawen.

CWIS NADOLIG YR ECO

1. Ym mha ddinas mae maes criced NEWLANDS?
2. Pa un yw'r unig glwb rygbi o Gymru i gyrraedd rownd derfynol Cwpan Rygbi Ewrop?
3. Ym myd y campau pwy yw chwaer capten tîm pêl-droed Dinas Bangor?
4. Ar pa glybiau yng Nghynghrair Pêl-Droed Cymru mae a) Derek Brazil; b) Mark Jones; c) Alan Morgan yn rheolwyr?
5. Pa dri o fyd a campau a ddefnyddir i hysbysebu Gillette ar y teledu?
6. Ym mha stadiwm chwaraeon y ceir Hill 16 a'r Canal End?
7. Beth yw enw'r stadiwm tennis yn Efrog Newydd ble cynhelir Cystadleuaeth Agored yr UD?
8. Pa wlad enillodd Cwpan y Byd Golff yn 2009?
9. Pa wlad mae'r cricedwr Angelo Mathews yn gynrychioli?
10. Ym mha stadiwm pêl-droed y trechodd y Crysau Duon yr Eidal mewn gêm rygbi yn ddiweddar?
11. Pa dim pêl-droed Ewropeaidd sydd ag enw'r mudiad UNICEF ar eu crysau?
12. Trevor Steven yw'r unig bêl-droediwr Seisnig i ennill y Bencampwriaeth Bêl-droed mewn tair gwlad wahanol. Gyda pha glybiau?
13. Sawl gwaith yr enillodd Michael Schumacher Bencampwriaeth Rasio Formula 1?
14. Beth yw enw'r maes rasio ceffylau newydd yn Sir Gaerfyrddin?
15. Yn ei gêm gyntaf fel rheolwr Lerpwl collodd tîm Bill Shankly 4-0 gartref. Yn erbyn pwy?
16. Pwy sgoriodd y gôl y rhoddodd Thierry Henry 'help llaw' i'w chreu?
17. Enwch y 7 chwaraewr o Glwb Rygbi Cymru Llundain yng Ngharfan y Llewod yn Seland Newydd yn 1971?
18. Pa ddau 'fatiwr' achubodd y gêm brawf griced i Loegr yng Nghaerdydd yn erbyn Awstralia?
19. Pa record i gynghrair Cymru y sefydlodd Marc Lloyd Williams ym Mhorthmadog yn ddiweddar?
20. Pa ferch sydd wedi ennill Pencampwriaeth Senglau Wimbledon y mwyaf o weithiau?

ATEBION (I'w gweld ar waelod tudalen 5)

SWYDDOGION JACS Y GOGLEDD